Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 9. Rhif 7.] GORPHENAF, 1909. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.

Gwerth Gwahanol Grefyddau. J. Park Davies.

Y Dyn-Crist-Iesu. R. J. Jones.

Crefydd a Heddwch. D. J. Davies.

Y Diweddar Ddoctor Edward Everett Hale J. M. Lloyd-Thomas.

Cymanfa Ganu Ceredigion. E. O. Jenkins.

Priodas.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Ar werth yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

LLIN AR LIN:

Penodau'n Hanes a Chrefydd Israel,

— GAN Y —

Parch. J. JENKINS, B.A. (Gwili).

Mewn Llian, 2s. Trwy y Post, 2s. 2c.

JUST ISSUED. A SHORT CATALOGUE OF

RARE SECOND-HAND BOOKS

in Welsh or relating to Wales, on Sale at the YMOFYNYDD Office, Llandyssul. Applications invited.

TALIADAU.

D.J., Tydwgi; R.L., Ton, Pentre; J.M., Blaengwynfi; Miss D., Caerdydd; H.W.H., Merthyr; S.H., Pontbrenllwyd; D. M. D., Aberdar; Mrs. T., Cribyn; D. J., Rhydfene; Miss D., Llwynifan Cottage; J.D., Llanwnen; D.D., Gwardafolog; E.D., Aberdar; D.D., Felinfach; E.J.J., Barnsbury; J.J., Aberaman; D.J.E., Chester; J.J.W., Trebanos; Mrs. J., Pentwyn; J.P.D., Pontypridd; D.T., Lerpwl; Mrs. E., Tregaron.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR • YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob beth: deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1909. [CYF. IX. RHIF 7.

NODION Y MIS.

BYDD y Rhifyn nesaf yn rifyn y Cyfarfodydd Blynyddol. Yn ychwanegol at yr adroddiad arferol, cynwysa hefyd anerchiad blynyddol y Llywydd. Diau bydd y sawl a gafodd y fraint o wrando ar Mr. Thomas yn Nghwrtnewydd yn falch o weled yr anerchiad yn cael ei argraffu, a gallwn sicrhau y rhai na chafodd y fraint hono, ei fod yn werth eu sylw manylaf. "Ein Eglwysi" ydoedd testun Mr. Thomas, a chyffyrddodd mewn modd ymarferol â'r pwnc yn ei holl agweddau—a gawn ni, yn weinidogion a phobl, nid yn unig ei ddarllen ond ei gymeryd at ein hystyriaeth lwyraf, ac ni fydd ond y canlyniadau goreu i esgor mewn canlyniad.

Gwnaeth yr Ysgrifenydd gyfeiriad at yr ymdrechion ardderchog wneir gan ein gwahanol gymdeithasau i sicrhau i bob gweinidog Undodaidd o leiaf £150 o gyflog. Y mae y nod hon yn mhell heb ei chyrhaedd yn Nghymru, ond fel un help tuag at hyny, anogai'r Ysgrifenydd bob eglwys i argraffu adroddiad arianol yn nghyd a rhestr o'r aelodau, fel y gellir ei ddosparthu yn mhlith teuluoedd berthynant i'r eglwys. Nid yw y gost ond ychydig, ond y mae'r canlyniadau o werth mawr. Y mae llawer o aelodau yn mhob eglwys nad ydynt eto wedi dihuno i'w cyfrifoldeb, a goreu i gyd po gyntaf yr agorir eu hamrantau fel y gallont weled.

Dylai eglwysi Undodaidd Ceredigion deimlo yn falch o'r sylw arbenig dalwyd yn nghyfarfodydd y Gymdeithas Undodaidd Llundain, gan y Llywydd, Mr. John Harrison, i'r canu cynulleidfaol glywodd yn y cwrdd chwarter yn Mhantdefaid. Y mae Mr. Harrison yn awdurdod mewn cerddoriaeth, a darllenai bapyr ar "Grefydd a Cherddoriaeth," ac yn nghwrs ei anerchiad dywedodd rywbeth fel y canlyn:—

"Ychydig wythnosau yn ol, gwnaeth fy nyledswydd fel Llywydd

eich Cymdeithas, alw arnaf i ymweled ag un o'n capelau mewn pentref gwledig ag anghysbell yn mhlith mynyddoedd Cymru. Yno am y tro cyntaf yn fy mywyd y clywais, yr hyn a ystyriaf ydyw gwir ganu cynulleidfaol. Canai pob addolwr ei ran, fel yn yr hen ddyddiau gynt pan yr oedd Lloegr yn ail i neb fel cenedl gerddorol, gyda'r canlyniad fod yna gyflawnder mawreddog o gerddoriaeth ddwys yn llifo allan oddiwrth gynulleidfa fawr a difrifol mewn perffaith gydgordiad ac amseriad. Yma, o'r diwedd, cefais gynulleidfa yn canu yn deilwng o'r enw; yma yr oedd aberth cerddorol o addoliad i'r Hollalluog o'r hwn nid oedd un achos cywilyddio. O'r llwyfan hwn rwy'n danfon fy llongyfarchiadau a'm diolchgarwch i'r cyfeillion Cymreig teilwng hyny. Bydd eu canu calonog yn swnio fyth yn fy nghlustiau, ac ni wna fyth beidio arwyddocau yn fy meddwl pwnc y papyr hwn,—Crefydd a Cherddoriaeth."

GWERTH GWAHANOL GREFYDDAU.

Amcan yr ysgrif hon yw ceisio dangos mewn byr eiriau gwerth ac amcan astudiaeth gwahanol grefyddau'r byd. Mewn maes mor fawr anhawdd yw gwybod pa le sydd ore i ddechreu. Ond yn unol a'r rheol i ymresymu oddiwrth yr hyn sydd wybyddus at yr hyn sydd ddieithr

GWNAWN DDECHREU GYDA'R BEIBL—

llyfr cysegredig Iuddewaeth a Christionogaeth, dwy o brif grefyddau'r byd. Yn yr Hen Destament, ac yn enwedig yn llyfr Deuteronomium, sonir yn fynych am yr Iuddewon fel pobl i Dduw mewn ystyr neillduol. Credent fod Duw wedi eu dethol allan o ganol holl genhedloedd y ddaear, a'u gosod ar uchelfan bri a mawredd. Cydnabyddent fod eraill o bosibl y tu fewn i gylch llywodraeth yr un Duw, ond o'u cymharu a'r Iuddewon nid oedd eu safle ond dinod a dibwys. Gosodir Duw allan fel yn rhoddi gorchymyn taer i'r genedl etholedig: "Rhag dyrchafu o honot dy lygaid tua'r nefoedd, a gweled yr haul, a'r lleuad, a'r ser, sef holl lu'r nefoedd, a'th yrru di i ymgrymu iddynt, a gwasanaethu o honot hwynt, y rhai a rannodd yr Arglwydd dy Dduw i'r holl bobloedd dan yr holl nefoedd. Ond yr Arglwydd a'ch cymerodd chwi, ac a'ch dug chwi allan o'r pair haiarn, o'r Aipht, i fod iddo ef yn bobl, yn etifeddiaeth; fel y gwelir y dydd hwn" (Deut. iv. 19-20.) Gellid yn hawdd dyfynu llu o enghreifftiau eraill i'r un perwyl. A chofier fod beirniadaeth ddiweddar yn ein dysgu mai nid barn Moses geir yn y geiriau fel y tybid unwaith, nac yn wir barn neb arall oedd byw tua amser Moses, ond perthyna'r syniad i oes llawer diweddar-

ach, a chafodd, fel mae'n fwyaf tebygol, ei ddatgan gan ryw awdwr oedd wedi ei fagu a'i feithrin o dan ddylanwad dysgeidiaeth y prif brophwydi. A'r hyn sydd darawiadol yw fod awdwr Deuteronomium, meddwl agored a rhyddfrydig fel ag oedd ganddo, yn medru coleddu'r dyb fod Duw yn fwy ffafriol i'r genedl Iuddewig na'r un genedl arall ar wyneb yr holl ddaear. Efallai y bydd yn syn gan rai pan y dywedaf wrthynt fod yr un yspryd ag a welir yma wedi ei drawsgludo i fesur helaeth i'r grefydd Gristionogol. Yr wyf yn cyfeirio yn awr nid yn gymaint at y gwahanol enwadau ond yn hytrach at Gristionogaeth fel cyfangorph. Sonia Henry Fielding yn un o'i lyfrau am ryw offeiriad o'r enw Thwackum. Gofynwyd iddo un tro os y byddai mor garedig ag ateb beth oedd ei ddeffiniad o grefydd. Dywedodd yntau heb unrhyw betrusder ei fod yn golygu wrth grefydd y Grefydd Gristionogol, ac nid yn unig y Grefydd Gristionogol, ond Protestaniaeth, ac nid yn unig Protestaniaeth, ond yr Eglwys Sefydledig. A chaniatau nad ydym yn barod i fyned mor bell a hynyna heddyw, eto meddienir y mwyafrif mawr o Gristionogion hyd yn nod heddyw gan y teimlad mai eu heiddo hwy yw yr unig wir grefydd tra nad yw y crefyddau eraill ond cyfundrefnau gau neu ynte efelychiadau twyllodrus a pheryglus o'r Grefydd Gristionogol. Yr un yspryd yn union ydyw hwn ag y cyfeiriwyd ato o'r blaen fel yn bodoli yn mhlith yr Iuddewon yn oes awdwr llyfr Deuteronomium.

Er adeg y

Diwygiad mawr Protestanaidd

a'r adfywiad llenyddol yn yr oes flaenorol y mae nifer o ddylanwadau meddyliol ac ysbrydol wedi bod ar waith, ac wedi llwyddo i ryw fesur i'n dwyn ni allan o'r cyfryw le cyfyngedig, a medrwn weled bellach fod yna diriogaethau lawer yn gorwedd o amgylch i ni nad oeddym o'r blaen wedi cymaint a breuddwydio am eu bodolaeth. Y mae hyn yn wir am danom bron yn mhob ystyr. Cymerer fel un engraifft ein dull o edrych ar y byd allanol. Credid unwaith, a hyny heb fod yn mhell iawn yn ol, mai canolbwynt y bydysawd oedd y blaned fechan ar yr hon yr ydym yn byw. Ond erbyn heddyw dysgir ni yn wahanol, ac yn lle edrych ar y ddaear fel swm a sylwedd yr holl greadigaeth meddyliwn am dani fel yn ffurfio un ran yn unig o gyfundrefn mor fawr fel nad oes genym hyd yn hyn ond amcaniaeth wan ac anmherffaith iawn am ei chyrhaedd a'i chynwys. Ac fel ffrwyth y safbwynt newydd hwn o edrych ar bethau oddifewn ac oddiallan, dywedir, gyda llawer o briodoldeb, ein bod wedi darganfod bydysawd newydd a dynoliaeth newydd. Gallwn fyned yn mhellach ac ychwanegu ein bod hefyd wedi cael gafael ar grefydd newydd—crefydd nad yw yn gyfystyr hollol ag unrhyw gyfundrefn neillduol mewn hanes, ac eto yn cynwys yr hyn sydd hanfodol yn yr oll. Ni chaniata gofod i ni sylwi ar y gwahanol ddylanwadau ydynt wedi bod ar waith i ddwyn y gwirionedd pwysig hwn i'r golwg. Digon fydd cyfeirio yma at y ffaith nas gall yr un dyn mwyach—oddigerth

ei fod wedi ei dywyllu gan anwybodaeth neu ragfarn—wadu nad oes yna grefydd yn ogystal a chrefyddau mewn bodolaeth yn mhob parth o'r ddaear. Hyd y gwyddom nid oes na gwlad na chenedl mewn unrhyw fan heddyw nad oes ganddi grefydd mewn rhyw ffurf neu gilydd. A'r hyn sydd yn fwy pwysig fyth efallai yw, y ffaith ein bod yn dyfod yn fwy argyhoeddedig o hyd fel mae amser yn myned heibio, fod pob crefydd wedi deilliaw o'r un tarddle, ac yn arwain y ddynoliaeth tua'r un terfyn. Ac y mae'r berthynas rhwng y gwahanol grefyddau a'r tebygolrwydd amlygir ganddynt y naill tuag at y llall mewn gwahanol gyfnodau o'u tyfiant, mor darawiadol nes ydynt wedi rhoddi bodolaeth i'r wyddor ieuengaf a elwir yn gyffredinol yn

"Efrydiaeth Gymhariaethol y Gwahanol Grefyddau."

Hawlia'r wyddor hon ddau beth; sef yn gyntaf, y dylai pob crefydd gan nad o ba wlad neu ddylanwad, i gael ei hefrydu yn drwyadl ac mewn ysbryd o gydymdeimlad ar ei phen ei hun. Ac yna, yn yr ail le, ei bod yn cael ei hystyried unwaith eto ochr yn ochr, a'i chymharu mewn modd manwl â'r holl grefyddau ereill, ar ol iddynt gael eu harchwilio yn yr un ystyr a'r blaenaf, ac fod i ni wneuthur hyny yn deg ac yn ffyddlon fe welwn ar unwaith fod y gwahaniaethau sydd rhyngddynt yn llawer llai pwysig a mwy arwynebol na'r tebygolrwydd. A pha fodd y mae i ni gyfrif am y ffaith hon? Nid yw yr ateb fod y diafol wedi bod yn brysur ar hyd yr oesau yn gwasgar y newyddion da berthynant yn unig i Gristionogaeth yn deilwng o ddim ond gair o gerydd wrth ein bod yn myned heibio. Gwell yw credu gyda phrif ddysgawdwyr yr oes bresenol fod ysbryd yr un Duw wedi bod erioed yn cyniwair drwy yr oll o'r greadigaeth, a'i fod yn ymdemlu mewn ystyr neillduol yn yr enaid dynol. Ac os yw yr ysbryd sydd felly yn gweithredu oddifewn yr un, nid yw ond naturiol i ddisgwyl fod yr amlygiadau allanol hefyd, mor bell ag y caniata neillduolion lle ac amser, yn dwyn tebygolrwydd yn yr un modd. Y mae Duw wedi, ac yn parhau i, ddal cymundeb nid yn unig a ni ein hunain, ond a phob cenedl arall yn ogystal. Darfu i'r Creawdwr anadlu anadl einioes, nid yn unig i ffroenau Adda yn ngardd Eden,—i ddefnyddio hen chwedl, ond y mae wedi gosod yr un ysbryd tragwyddol yn mynwes pob plentyn o'i eiddo, drwy yr holl fyd cyfaneddol. Ac yn fyr, dyna mewn gwirionedd yw hanfod crefydd, sef

Ysbryd Duw yn y Ddynoliaeth

yn ceisio dwyn ei hun i danbeidrwydd cyflawn a pherffaith.

Ar ol siarad cyn belled am ystyr Efrydiaeth Gymhariaethol y gwahanol grefyddau, yr wyf am ddweyd gair neu ddau wrth derfynu o barthed i'w hamcan a'i defnyddioldeb. Ac yn y lle cyntaf y mae yn ddyddorol ac addysgiadol i geisio gwybod rhyw gymaint am

grefyddau gwahanol bobloedd pe dim ond er mwyn y boddhad roddir i gywreinrwydd y meddwl wrth wneuthur hyny. Ond perthyna i'r agwedd hon o'r cwestiwn rinwedd arall hefyd sydd yn fwy ymarferol. Ysgrifenir llawer o lyfrau y dyddiau hyn ar gyflwr pethau yn yr India. Yn un o honynt awgrymai'r awdwr y byddai yn anmhosibl llunio deddfau iawn ar gyfer trigolion y wlad nes dyfod i wybod rhagor am eu harferion a'u tueddiadau crefyddol. Gellir cymhwyso yr un wers at bob cenedl arall yn ogystal. Ei grefydd yw y peth agosaf at ddyn, yn wir, nid yw ei grefydd ond cyfanswm ei fywyd yn mhob ystyr y medrwn feddwl am dano. Felly, y mae yn bwysig ein bod ni yn gwneud ein hunain yn gynefin a chrefydd pobl, pe dim ond er ei mwyn ei hun. Y mae efrydiaeth gymhariaethol y gwahanol grefyddau o ddefnydd hefyd am reswm arall. Y grefydd fwyaf ddyddorol i ni yn ddiamheu yw Cristionogaeth. Yn awyrgylch hon yr ydym bawb o honom yn symud, byw ac yn bod. Ond nis gallwn lai na theimlo, fel y gwna llawer ereill bellach, fod Cristionogion wedi gwneud cam nid bychan â'u crefydd. Nid o'u bodd, mae'n bosibl, ond eto i gyd, mae'r canlyniadau yn para i fod yr un. Y maent wedi ceisio sylfaenu

Crefydd Syml Iesu o Nazareth

ar y lythyren yn hytrach na'r ysbryd, ar y tymhorol a'r materol yn hytrach na'r tragwyddol a'r ysbrydol. Mewn geiriau eraill y mae'r mwyafrif mawr yn mhob oes wedi bod yn chwilio am hanfod eu crefydd yn y gwyrthiol a'r goruwchnaturiol, ie, a'r gwrthnaturiol hefyd ar brydiau, tra mae hanfod Cristionogaeth fel eiddo pob crefydd yn gynwysedig, nid mewn allanolion, ond yn yr ysbryd sydd yn ein symbylu oddifewn. Fel amod cael ein ystyried yn Gristionogion yr oedd yn ofynol i ni dderbyn nifer o athrawiaethau o'r cyfryw natur fel nas gall y rheswm dynol ffurfio yr un amcaniaeth am danynt. Ond yn ngoleuni yr efrydiaeth sydd genym yn awr o dan sylw deuwn i weled yn araf fod athrawiaethau berthynant i'r un dosbarth a'r cwymp, y diluw, yr enedigaeth wyrthiol, yr adgyfodiad, a'r esgyniad i'r nefoedd, yn nodweddu bron pob crefydd mewn rhyw gyfnod neu gilydd o'u tyfiant. Cadachau i'w diogelu yn eu mhebyd yw y pethau hyn, a dylasent gael eu gosod o'r neilldu yn ol fel y byddo'r ysbryd yn addfedu ac yn esgyn at bethau uwch a gwell. Dywedodd Mathew Arnold, "Mai gwir hanfod Cristionogaeth yw, nid y gwyrthiol, nac hyd y nod y goruwchnaturiol, ond efelychiad o fywyd Crist." Felly, os yr ydym yn awyddus am wneud Cristionogaeth yn allu ac yn ddylanwad yn y byd heddyw rhaid i ni geisio ei sylfaenu unwaith eto, megys ag y gwnaeth y blaenor ar y cychwyn, nid ar y lythyren sydd yn lladd, ond ar yr

Ysbryd sydd yn bywhau.

J. Park Davies.

Y DYN-CRIST-IESU.

(1 Tim. 2 : 5).

Dyn yw cynyrch olaf a pherffeithiaf ymddadblygiad. Nis gallwn ddychymygu dim uwch ; ac Iesu yw blodeuad perffeithiaf dynoliaeth — coron y cread, y *coping* yn cwblhau yr adeilad. Darllenwn fel hyn yn llyfr Genesis am gyflwr dechreuol pethau : "A'r ddaear oedd afluniaidd a gwâg, a thywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder." Awgrymir yma dri pheth yn bresenol o'r cychwyn—y defnydd dechreuol yn ei gyflwr afluniaidd a gwâg, hwnw yn 'ymsymud,' ac yn drydydd, yr Yspryd yn achosi'r ymsymud ac yn rhoddi iddo'r cyfeiriad sydd o hyd yn dwyn trefn allan o'r tryblith. Nis gall mater marw o hono ei hun ddim ; a chyda help yr ymsymud yn unig nis gall ddim sydd ddealladwy ; rhaid wrth yr Yspryd, y Meddwl, i reoli cyn y gellir dysgwyl dim yn debyg i drefn, dim sydd ddealladwy. Os digwydd i flwch y cysodydd llythyrenau yn yr argraffdŷ gael ei ddymchwelyd, ni fydd neb yn dysgwyl gweled y llythyrenau wedi ymrestru yn y fath drefn ag i fod yn ddarllenadwy. Na, ni cheir yno nac englyn na rhigwm, ond y cwbl yn un pentwr cymysglyd, di-reol, di-ystyr.

Gwers fawr athrawiaeth

YMDDADBLYGIAD

yw fod yna elfen reoleiddiol wedi bod erioed wrth galon y cread, yn arwain ac yn rhoddi cyfeiriad, yn mlaen ac i fyny o hyd, o adeg y cyffro cyntaf yn mhlith y nwyon, nes dyfod at ffurfiau isaf, symlaf bywyd, ac yna drwy'r aneirif ffurfiau o lysiau ac o anifeiliaid hyd oni ddaeth dyn ar y ddaear i fod yn arglwydd ar yr oll. Camu'n frâs y mae Emerson, a dilyn Schelling feallai, wrth nodi prif fanau'r daith : The gases gather to the solid firmament ; the chemic lump arrives at the plant and grows ; arrives at the quadruped and walks ; arrives at the man and thinks.

Y MEDDYLIWR.

Thinks.—Y mae pethau allanol yn dyfod yn wrthrychau meddwl a myfyrdod i ddyn ; ond cyn hyny y mae wrth bob tebyg wedi gorfod pasio am lawer cenedlaeth drwy dymor o fabandod difeddwl a difyfyrdod. Hwn ydoedd dydd ei bethau bychain, pan oedd y cais at ddiwallu angenion corff yn gofyn ei holl sylw a'i ymdrech. Ond yn raddol fel yr oedd yn esgyn ar hyd llwybr ei ymddadblygiad y mae'r galluoedd meddyliol yn myned yn fwy pwysig a galluoedd y corff yn myned yn ail raddol. Dyna'r nodwedd sydd yn gwahaniaethu'r dyn oddi wrth yr anifail—sydd yn gwneuthur y dyn yn ddyn. Efe'n arbenig yw'r meddyliwr.

Gesyd ei synwyrau ar waith. Ceisia ddeall rhywbeth am y byd y mae yn byw ynddo a'r gwrthrychau sy'n ei amgylchu. Ychwanega faes ar ol maes at ei wybodaeth. Ar ben pob llwybr y mae'n cael gagendor anhramwyadwy, a'r geiriau "*No thoroughfare*" uwch ben. Beiddgar, fodd bynag, yw dyn ac anturus iawn. Nid yw anhawsderau ond megys yn ei herio i ymdrech mwy. Er eu gwaethaf, cyflawna orchestion yn mhob oes, ac ychwanega bob oes at y trysorau cyfoethog sydd at wasanaeth y byd.

Ymylir ei lwybr gan ddirgelwch bob cam o'r daith—dirgelwch annirnadwy. Dwg ei freuddwydion ef i gyffyrddiad â'i anwyliaid ymadawedig, a phar y rhai hyny iddo ddychymygu yspryd byw yn preswylio yn y myrdd gwrthrychau o'i amgylch. Iddo ef y mae mynydd a môr, afon a dyffryn, gwlaw a chenllysg, haul a lloer a ser, yn amlygu'r dirgelwch na

fedr ei esponio. Yn raddol daw yn addolwr, nid y pren a'r maen, fel y tybia rhai, ond y dirgelwch byw, yr yspryd tybiedig sydd yn preswylio ynddynt. Yn raddol hefyd y gedy ar ol ei hen syniadau, y naill ar ol y llall, gan ymestyn o hyd am rywbeth uwch a gwell. Ymloywa'i syniadau gyda threigliad a diflaniad yr oesau, a daw o'r diwedd i afael y syniad nad yw eilun ddim yn y byd, nad oes ond un Duw, Crewr nefoedd a daear. Dywedir ein bod ni heddyw yn ddyledus i Rufain am ein Deddfau Trefn, i Groeg am ein syniad o'r Prydferth, am wyddor a chelf; ond yr Iuddew a'n dysgodd i osod pwys ar Sanct-eiddrwydd a phurdeb buchedd, ac a roddodd ini y fath syniad am Dduw ag oedd yn anocheladwy yn awgrymu goruchafiaeth cydwybod, anfarwoldeb yr enaid a chyfrifoldeb pob dyn.

Browning a ddywed :

God is in his heaven
All is right with the world ;

A Phantycelyn yn well fyth :

'Does dim nac yn na than y nef
Nad Ef sydd yn ei beri ;
Ac Ef a roes, *gwnaed dyn ei ran*,
Y cyfan er daioni.

Dyma un o'r gwersi y mae Chwedloniaeth Groeg wedi adael i ni,—Yn rhy ddiystyr yr agorodd Pandora y blwch gafodd gan Jupiter ; ond er i bob peth arall ddianc, arosodd

GOBAITH AR OL.

Ac felly y mae, erys gobaith yn etifeddiaeth barhaus gyda dyn. Yn ol tystiolaeth Mr. W. J. Jones, y naturiaethwr Americanaidd enwog, ar ol 30 mlynedd o efrydiaeth fanwl ar ffyrdd ac arferion creaduriaid gwylltion, nid oes fawr sail dros ddesgrifio'r byd fel *slaughter house ;* na welodd efe erioed anifail anhapus, nac un nad oedd yn wastad yn ymlawenhau yn ei fodolaeth. Yr un Paul hwnw a ddywedodd wrth y Rhufeiniaid fod "yr holl greadigaeth yn cydocheneidio" (R.V.), archodd hefyd i'r un pobl fod "yn llawen mewn gobaith."

"Llawer gwaith a llawer modd" yw'r hyn a ddywed y gair ; "llin ar lin, ychydig yma ac ychydig acw" ; ond bob amser ac yn mhob man ein dyledswydd ni yw ceisio'r gwirionedd. Y mae gwirionedd Duw mewn gwyddor ac mewn crefydd yr un a chytun, ac heb yr un gwrthdarawiad. Nid yw athrawiaeth Ymddadblygiad ond cais at egluro'r modd y mae Duw yn cario ei waith yn y blaen ; ac o'i iawn ddeall nis gall fod yn elynol i wir grefydd.

Y mae gobaith wedi bod wrth galon Natur o'r dechreu ; a'r dyhead a'r dysgwyliad am rywbeth uwch a gwell wedi bod erioed yn fath o symbyliad ac o gefnogiad i ymdrechion dynoliaeth. Ceir arwyddion o bresenoldeb y gobaith yn mhlith y Cenedloedd ; ond fe'i ceir fel llinell o arian dysglaer yn rhedeg i lawr drwy oesau hanes yr Iuddew. Weithiau'n wanach, fodd bynag, weithiau'n gryfach ; ond pan fyddai dywyllaf yr amgylchiadau, y pryd hwnw byddai proffwyd gobaith yn dal ei faner i fyny yn fwyaf amlwg.

Perthynai i'r gobaith Iuddewig ei nodweddion neillduol a chenedlig, ac yn fynych defnyddid ef mewn ffordd yn gyfystyr a *Messeia*—

Y CRIST

—gair yn golygu eneiniog, ond yn ymarferol o arwyddocâd amrywiol iawn. Ceir ef weithiau yn dynodi y dyhead naturiol am ddyfodol gwell i'r genedl, bryd arall *ideal* neu ddelfryd amhenodol ac amhersonol, a phryd arall drachefn Frenin penodol o dŷ ac o deulu Dafydd. "Yr oeddym ni yn dysgwyl," meddai un o'r dysgyblion ar y ffordd i Emmaus gynt, "mai hwn a ddaethai i waredu Israel." Yr oedd y genedl wedi ei thrwytho â'r dysgwyliad am y Messeia ac am ddyfodiad Teyrnas Dduw. Yr oedd "Deled dy Deyrnas" yn rhan o weddi pob Iuddew duwiol.

I amgylchynedd o'r fath y cafodd Iesu ei eni tua 19eg canrif yn ol, ac yn naturiol daeth yr un syniadau yn

rhan o'i etifeddiaeth yntau. Yn ei gartref yn Nazareth, fe'i clywai oddi ar wefusau ei fam ; yn mhlith y gwragedd yn ymyl y ffynon yn mhen uchaf y dref — sydd yn aros hyd heddyw,—ac yn mhlith y plant a gydchwareuent âg ef, fe'i caffai yn fynych yn bwnc ymddiddan ; ac yn y synagog, lle'r arferai fyned ar y Sabbath, yr oedd ei galon fach yn ateb i'w adsain mewn pregeth a psalm a gweddi. Nid rhyfedd, os oedd y pwnc yn llanw lle mor amlwg yn nghalonau y bobl, fod bywyd Iesu hefyd fwy neu lai wedi ei liwio â'r un syniad.

Ond gadewch ini fyned yn ol gam, a chofiwn o'r diwedd mai'r testun yw Y Dyn Crist Iesu. Sylwer mai Iesu oedd ei enw gartref, ac mai enw ei dad a'i fam oedd Joseph a Mair, pobl barchus a chrefyddol, ac wrth bob tebyg mewn amgylchiadau cysurus, fel y gellid dysgwyl iddynt roddi pob manteision addysg i'w plant.* Gosodai'r Iuddewon bwys mawr ar fod pob plentyn yn dysgu rhyw grefft. Tebyg i Iesu yntau, gynted y daeth yn ddigon hen ddysgu crefft saer gyda'i dad. Ychydig wyddys am ei hanes bore, ond gallwn gasglu iddo fyned trwy gwrs o brofiadau cyffelyb i blant cyffredin ei gymydogaeth. Fel y gallwn ddysgwyl i fachgen da wneud, darllenwn iddo "gynyddu mewn doethineb a chorffolaeth, a ffafr gyda Duw a dynion." Yn 12eg oed, cawn ef yn y deml yn Jerusalem yn holi'r doctoriaid ac yn eu dyrysu. O 12eg nes oedd yn 30ain y mae hanes yn hollol ddistaw am dano.

Ni ddywed hanes ddim wrthym am ei dad, ond dywed traddodiad iddo farw cyn i Iesu ddechreu ar ei fywyd cyhoeddus. Gwyddom, fodd bynag, wrth ba enw y carai Iesu lefaru am Dduw, ac onid oes yna rywbeth melus yn y meddwl fod cyfiawnder a chariad a gofal ei dad gartref wedi gwneuthur yr enw tad yn enw anwyl a naturiol iddo. Am y fam—fe ddywed hen ddiareb Iuddewig fod "Paradwys wrth draed mamau," a charwn feddwl fod y ddiareb yn wir am Mair, a bod Iesu wedi teimlo ei ddylanwad yn yr ystyr oreu. Dysgodd yn fore ddwy wers sydd yn deilwng o sylw ac o efelychiad pob dyn ifanc — Ufudd-dod i'w rieni ac ofn yr Arglwydd.

Pan oedd efe "yn nghylch dechreu ei ddeng mlwydd ar hugain oed," efe a gychwynodd ar ei weinidogaeth gyhoeddus ; ond er na pharhaodd ei weinidogaeth ond amser byr iawn, efe a adawodd y fath argraff ar y byd na welwyd ei gyffelyb erioed na chynt na chwedi'n.

Tybir fod ei addysg yn cael myn-egiant heddyw yn ngwahanol

Ffurfiau Cristionogaeth.

Er mwyn lledaenu'r addysg hon y codwyd holl eglwysi a chapelau ein gwlad, ac i'r un pwrpas y parheir i'w cynal ; ond pan ofynir ini Beth yw Cristionogaeth fe'n cyfarfyddir gan y fath amrywiaeth o opiniynau fel y mae braidd yn rhy anhawdd i ddyn cyffredin ddyfod i un penderfyniad boddhaol ar y mater. Nis gallwn gredu fod Cristionogaeth yr eglwysi i gyd yn cynrychioli'r Gristionogaeth wreiddiol oddi eithr mewn rhan yn unig, a hyny o bosibl yn amherffaith ar y goreu. A hynyna sydd wedi rhoddi bodolaeth i'r waedd glywir mor fynych heddyw—Yn Ol at Iesu.

Pan y rhedir yr haiarn hylif allan o'r ffwrnes, fe gymer ffurfiau mor wahanol a'r moldiau fyddant yn ei dderbyn. Pan mae'r bywyd llysieuaidd yn bwrw allan i waith yn y gwanwyn, gafaela yn y defnyddiau a threfna hwy yn aneirif ffurfiau y byd y perthyn iddo. Gwna'r bywyd anifeilaidd yr un peth. Tebyg ar ryw

---

*Gwnelai'r Iuddewon well defnydd o'u synagogau nag a wneir gan Gristionogion o'u heglwysi a'u capelau, y rhai ydynt yn gyffredin yn nghau chwe' diwrnod o bob saith. Heblaw bod yn lle addoliad ar y Sabbath, cynelid ysgol ddyddiol ynddynt, ac ar ddyddiau penodedig yno hefyd y cynelid llys barn.

ystyr yw crefydd. Y mae yn mhob dyn reddf at grefydd, ac yn ol ei reddf bersonol ei hun, bydd pob un yn rhoi ffurf amrywiol i'w grefydd. Yspryd yw crefydd, bywyd yw crefydd, ac yn amrywio yn ei ffurf yn mhob dyn—yn wahanol i raddau yn Iago ac Ioan, yn Petr a Phaul. Gan Iesu yn unig y gellir dysgwyl cael corff-oriad cywir o grefydd Iesu. "Not Paul but Jesus" oedd enw llyfr a gyhoeddwyd gan William Penn.

Nid tebyg i Paul erioed weled Iesu o Nazareth yn y cnawd, ac nid ymddengys fod ganddo nemawr ddim i'w ddywedyd am ei fywyd a'i addysg-iadau. Yn ei farwolaeth a'i adgyfod-iad y teimlai efe ddyddordeb ; a'i bwnc mawr oedd profi mai Iesu oedd y Messeia, mai Iesu oedd y Crist. Er i Paul waredu Cristionogaeth o'i therfynau Iuddewig, fe roddodd ar yr un pryd gychwyniad i syniadau a'i hamddifadodd o'i symlrwydd cyn-tefig.

Mae cysylltu'r ddau air 'Iesu Grist' fel pe byddent un enw personol fel John Jones neu Tom Evans, wedi bod yn achos o ddyryswch mawr ac amryfusedd lawer yn yr eglwys. Er mwyn eglurder fe ddylid ysgrifenu Iesu "y" Crist—Jesus the Christ—yn debyg fel y dywedwn ni Dafydd y Crydd. Iesu yw'r enw personol, a'r Crist, enw swydd yw. Golyga'r naill enw personol yn perthyn i'r ganrif gyntaf, a'r llall hanes athraw-iaeth sydd wedi amrywio mwy neu lai drwy bob canrif o'r pryd hwnw hyd heddyw. Un Iesu sydd, ond y mae Cristiau lawer.

Dylid cofio na adawodd Iesu un ysgrif ar ei ol, ac na feddyliodd ei ddysgyblion am ysgrifenu un math o goffa am o leiaf ddwy genedlaeth wedi iddynt ei golli ; ond os na adawodd ysgrifen, gadawodd feddyl-iau mawrion ar ei ol, nid ar bapur mae'n wir, ond yn nghalonau ei gyf-eillion. Bwriodd ei hâd—hâd ei Deyrnas—i ddaear ffrwythlawn byw-ydau oeddynt wedi eu hysprydoli ganddo, a gadawodd ef yno i gyn-yrchu ei ffrwyth naturiol ei hun. Dysgwyl yr oeddynt hwy am ei ail ddyfodiad buan, gan hyny ystyrient hi'n ddiangen i ysgrifenu bywgraffiad. Yn y gwahanol eglwysi, pa un ai yn Corinth ynte yn Tarsus, ynte ryw eglwys arall, yr un meddylddrych mawr oedd yn moldio ac yn llunio'r holl draddodiadau—

Y Crist

neu'r Messeia hir ddysgwyliedig gan yr Iuddewon. Lliwid eu holl syniadau gan yr un meddwl hwn ; gwelent ei eiriau a'i weithredoedd yn y goleuni a adlewyrchid oddi wrth y meddwl hwn. I Paul, Iesu y Messeia yw pob peth. Y mae'r Crist yn taflu'r Iesu i'r cysgod. Defnyddia'r enw Iesu yn syml 12 gwaith, Iesu Grist 32, Crist Iesu, y Crist yn mlaenaf 35, Crist yn unig, Iesu yn cael ei anwybyddu 156 o weithiau. Dyna dreigl meddwl un oes. Eto nid yw Crist byth yn Dduw gan Paul.

"You are a fireworshipper," ebe ffwl o Sais un tro wrth Mr. Dadabhai Naoroji, Parsead enwog, ac Aelod Seneddol un amser dros ranbarth o Lundain. "Nac wyf," medd yntau, "nid yw'r Parsiaid yn addoli'r Tân, er fod dynion yn gyffredin yn tybied hyny. Dysgir y Parsiaid pan yn blant i edrych ar y Tân, neu rywbeth dysglaer arall, pan yn addoli Duw ; ond nid y Tân yw ein Duw ni. Edrychwn ar y Tân yn unig megys cyfrwng i'n cynorthwyo i sylweddoli'r presenoldeb dwyfol ac i addoli Duw."

"Y nefoedd sydd yn dadguddio gogoniant Duw," medd y Psalmydd, eithr nid Duw mo'r nefoedd ; yr haul a'r lloer a'r ser a amlygant ei dra-gwyddol allu, ond nid duwiau mo'r un o honynt ; yr "Infinite and Eternal Energy" y sonia Herbert Spencer am dano, o'r hwn y daethom ac i'r hwn y dychwelwn, nid Duw mo hono, er y dywed Spencer mai'r un yw a'r Gallu sy'n ffynoni mewn ymwybydd-iaeth—"that wells up in consciousness" ; y "Stream of tendency" y sonia Matthew Arnold am dano, "the Eternal, not ourselves that makest for righteousness," ardderch-oced yw, nid Duw yw. Gallant fod

oll yn amlygiadau o Dduw, yn briodoleddau Duw, ond nid Duw mo honynt. Duw yw'r sail a'r sylfaen—the foundation and base—sydd wrth waelod pob peth — immanent and transcendent, yn mhob peth ac uwch pob peth. Efe yw'r gallu tucefn i'r pethau gweledig, ac nid y pethau gweledig eu hunain — the Power behind phenomena and not the phenomena themselves.

Sylwer eto mai'r un o ran ystyr yw'r gair Messeia a'r gair Crist, y naill yn Hebraeg a'r llall yn Roeg, a'r ddau yn golygu eneiniog neu frenin. Dysgwyliai'r Iuddew am Fesseia fyddai'n frenin daearol ar deyrnas ddaearol, yn ffafriol i'w genedl ef, ac yn abl i ddarostwng yr holl deyrnasoedd wrth ei draed ef. I osod i fyny deyrnas o'r fath y tynodd Petr ei gleddyf ac y torodd glust gwas yr archoffeiriad. Nid oedd Petr yn deall natur teyrnas Iesu Grist y pryd hwnw. Y syniad Iuddewig oedd o hyd yn llanw meddwl Petr. Yr oedd y Messeia Iuddewig yn cynrychioli'r delfryd neu'r *ideal* uwchaf y gwyddai ef am dano; ond ni fu erioed yn wrthrych addoliad ganddo.

I fyned yn ol at

IESU

rhaid myned y tu cefn i syniad Petr am dano, a thu cefn hefyd i'r epistolau a'r efengylau. A ydyw hyn yn bosibl? Y mae'r efengylwyr wedi rhoddi i ni'r defnyddiau, a diolch am danynt, a gallwn ninau wneuthur rhywbeth tuag at gael y darlun yn fwy cywir. Rhaid yw cofio mai nid adroddiadau llaw fer sy genym o eiriau a gweithredoedd Iesu, nid adroddiadau llygaiddystion wedi eu gosod i lawr gyda chywirdeb gwyddonol. Bu'r defnyddiau am ddwy genedlaeth yn y ffurf o draddodiad cyn iddynt gael eu hysgrifenu, ac mewn awyrgylch lle'r oedd rhagfarnau blaenorol a'r duedd at chwedloniaeth mor gryf, nis gallent lai na myned dan gyfnewidiadau pwysig.

Mae un peth yn sicr, mai nid y Messeia Iuddewig oedd Iesu. Yr oedd ei holl fywyd a'i holl addysgiadau yn gwbl groes i'r hyn oedd hwnw. Yr oedd yn anfeidrol symlach a phrydferthach; ac eto dealler mai nid llai ond mwy o lawer oedd na hwnw. Oherwydd eu rhagdybiau, yr oedd hyd yn oed ei ddysgyblion o hyd yn camddeall Iesu. Yr oedd ef yn ddyn mwy gwirioneddol, mwy ardderchog, mwy gogoneddus, nag hyd yn oed yr *ideal man*, yr ail Adda oedd gan Paul, ardderchoced oedd hwnw; yn fwy argraffiadol na'r *Logos* ddyn, dyn yr ymgnawdoliad oedd gan Ioan; ac yn ddigon mwy *true to nature* na Messeia-ddyn yr Iuddew.

Ymddengys mai rhywbeth i dynu sylw allanol, rhywbeth i beri syndod a rhyfeddod oedd yn ateb chwaeth y dysgyblion yn oreu. Cawn Iesu o hyd yn eu ceryddu am eu bod yn ceisio arwydd; ond parhau i geisio arwydd yr oeddynt hwy; parhau felly hefyd oedd teimlad yr eglwysi yn gyffredin. Yn yr Apocrypha (T.N.) cawn enghreifftiau o'r teimlad hwn wedi ei gario i'r eithafion mwyaf dwl. Priodolir i Iesu y gwyrthiau mwyaf ffol a phlentynaidd, gyda'r amcan i'w fawrygu; ond nid mawredd felly oedd mawredd Iesu. Nid oedd y pethau a ystyria'r byd yn gyffredin yn fawr yn ddim yn ei olwg ef. Er nad oedd ganddo le i roddi ei ben i lawr, nid oedd casglu cyfoeth yn ddim yn ei olwg. Nid mawredd daear, nid ychwanegu maes at faes, nid arwain byddinoedd i ryfel, nid cael clod yn y senedd oedd amcan ei fywyd ef. I ychydig y rhoddir y cyfleusdra i hyny.

Beth yw mawrfri uchel achau,
Rhwysg a mawredd bonedd byd?
Ond oferedd sâl disylwedd,
Gwynt a gwagedd oll i gyd;
Nad all estyn un funudyn,
Ar eu heinioes hwy na'u hedd—
Holl ffyrdd llwyddiant a gogoniant
A ddibenant yn y bedd.

Gosododd Iesu ger bron y byd syniad newydd am fawredd, y fath na ddychymygodd y byd ei debyg erioed — delfryd newydd sydd wedi dyfod i

aros, ac un mwy gwerthfawr am ei fod yn bosibl i ninau ei efelychu. Efe a roddodd i ni esiampl fel y canlynem ei ol. Gallwn deimlo o leiaf ei fod o fewn cyrhaedd i ninau — y mwy cyffredin. Onid dyna'r *secret* nad oedd mawrion ei oes yn deall mo hono? Dysgwyliem i Seneca, ei gyfoed, wybod a dywedyd rhywbeth am dano. Dim, dim! Yr oedd y *type* yn newydd; yr oedd y dyn o flaen ei oes.

Nid byw i hunan ond byw i arall oedd

KEY-NOTE BYWYD IESU;

nid hunanglod, ond hunanaberth, hunanymwadiad. Ei air mawr ef, a phrif nodwedd ei holl fywyd oedd cariad—cariad at Dduw, cariad at ddyn. Iddo ef yr oedd Duw yn dad, a dyn yn frawd — ie, brodyr pawb, plant i'r un Tad. Rhai o elfenau pwysicaf y bywyd uwch yw Rhinwedd, Gwasanaeth, Daioni, ac O mor ardderchog yr amlygir hwy yn mywyd Iesu!

Ei reol euraidd ef oedd: Gwnewch i arall fel y carech i arall wneuthur i chwithau. Pe gosodid egwyddorion sylfaenol bywyd Iesu mewn ymarferiad cyffredin, darfyddai pob ymryson, diflanai pob rhyfel, ac esgynai Iesu i'w orsedd fel Tywysog tangnefedd, gan beri i heddwch estyn ei hesgyll gwynion dros bedwar bàn y byd. Deddf Ymddadblygiad, ar ei hochr amlycaf oedd — Y gwanaf i'r wàl; ond deddf newydd y byd ysprydol yw — Y cryf dros y gwan. Y mae cariad yn cynwys tosturi, ac yn awgrymu maddeugarwch—maddeu hyd seithwaith, ie, hyd driugain seithwaith. O Dad, maddeu iddynt, &c.

Dyn yw coron ymddadblygiad yn y byd anianol, ac Iesu yw coron dynoliaeth yn ymddadblygiad y byd ysprydol; efe yw yr uwchaf, y goreu, yr urddasolaf, ardderchocaf, mwyaf ysprydol, mwyaf dwyfol, ie, y delfryd o'r hyn y tybiwn ni fod Duw wedi bwriadu i bob dyn fod; a thuag at sylweddoliad o gyffelybrwydd i'r delfryd hwn, credwn fod Duw yn ei Ragluniaeth drwy'r canrifoedd yn arwain yr oesoedd a'r cenedlaethau fel y byddo i bob dyn, fel Iesu ei hunan, gael ei gyflawni â holl gyflawnder y Duwdod!—Ephesiaid iii. 19.

Gwrandewch eiriau Dr. Channing: Y mae Galluoedd mawrion ar waith yn y byd. Pwy a ddichon eu hatal? Y mae Gair Duw wedi myned allan, ac ni ddychwel ato yn wâg. Cyfundeb newydd o yspryd Crist, parch newydd tuag at ddynoliaeth, teimlad newydd o frawdgarwch ac o berthynas pawb dynion i'r Tad cyffredin—y mae hwn yn un o arwyddion yr amserau; gwelwn ef; oni theimlwn ef? O flaen hwn y mae pob gormes i syrthio. Cymdeithas wedi ei thrwytho â hwn a newidia'r arolwg o ryfel i heddwch cyffredinol. Rhaid i nerth hunangarwch, rheibus ac anorchfygol mewn ymddangosiad, roddi ffordd o flaen yr yni dwyfol hwn. Cân yr angylion —Ar y ddaear tangnefedd, ni fydd raid iddi swnio o hyd megys rhywbeth ffugiol. O tyr'd, ti Deyrnas Nef, gweddiwn am danat bob dydd! Tyr'd, Gyfaill ac Iachawdwr yr hil, yr hwn dywelltaist dy waed i gymodi dyn a Duw, daear a nefoedd! Tyr'd, oes ragfynegedig cyfiawnder a chariad, am yr hon y dyheodd y ffyddloniaid mor hir! Tyr'd, Dad Hollalluog, a chorona â'th hollalluogrwydd ymdrechion gostyngedig dy blant i ddarostwng gormes a cham, i wasgar goleuni a rhyddid, heddwch a llawenydd, gwirionedd ac yspryd dy Fab dros yr holl fyd. Amen.

R.J.J.

BARN RHY GYFFREDIN.

'Dyw ceisio am y gwir
Ddim haner mor hyfrydol
A glynu wrth yr hyn
A gredwn yn bresenol.—PWY?

CREFYDD A HEDDWCH.

Mawr yw'r ysgrifenu a'r siarad sydd wedi bod erioed ac sydd o hyd ar y cysylltiad fodola rhwng crefydd a gwahanol bynciau ymarferol y dydd, megys crefydd a dirwest, crefydd ac addysg, crefydd a gwleidyddiaeth, crefydd a Sosialiaeth, ac felly yn y blaen ; a rhyfedd y gwahaniaeth barn ffyna yn nghylch y cysylltiad. Myn rhai nad oes a fyno crefydd âg unrhyw gwestiwn berthyn i'r byd hwn—mai ei phrif os nad ei hunig amcan yw ein cadw rhag uffern a'n parotoi ar gyfer nefoedd yn y byd ar ol hwn. Ereill a ddadleuant nad yw

CREFYDD DDIM GWERTH YR ENW,

nad yw ond ffug a sham, os nad oes ganddi rywbeth i ddweyd ar yr oll o'r pynciau hyn, os nad yw o gymhorth beunyddiol i ni i fyw fel ag y dylem yn y byd hwn ; tra ereill eto gydnabyddant fod gan grefydd rywbeth i wneud â rhai o'r pynciau a nodwyd, ond nid âg ereill ; credant y dylai crefydd ein dysgu i beidio meddwi, ond nid i wneud i ffwrdd â thlodi. Perthyn yr ysgrifenydd yn ddibetrus i'r ail ddosbarth, a chred fod a fyno crefydd â'r oll o fywyd, y dylai ac mewn gwirionedd fod ganddi ryw addysg i'w roddi ar bob cwestiwn o ymarweddiad gynyg ei hun i feddwl dyn—y dywed wrthym y dylem wneud fel hyn ac na ddylem wneud fel arall, fod un cwrs o ymarweddiad yn iawn ac un arall heb fod felly. Amcan yr erthygl hon, ynte, fydd ceisio dangos y cysylltiad rhwng crefydd ag un o bynciau mwyaf pwysig y dydd yn ein gwlad ni a phob gwlad wareiddiedig arall—y

CWESTIWN O HEDDWCH

neu ryfel rhwng gwahanol genedloedd y byd ; ac yn mhellach i anog proffeswyr crefydd yn neillduol i wneud rhywbeth ymarferol, sylweddol i atal y dòn a'r yspryd milwraidd sydd yn awr am lifo dros ein gwlad.

Symiwyd i fyny sylwedd crefydd gan Iesu Grist mewn cariad goruchaf at Dduw a chariad ymarferol tuag at ddyn—Duw yn Dad (ie, ac yn Fam hefyd) i'r holl ddynolryw, a dyn yn frawd ac yn chwaer i'w gyd-ddyn ; ac ychydig mewn cymhariaeth sydd yna heddyw feiddiant wadu mai dyna yw swm a sylwedd crefydd. Ychydig wadant hyn mewn geiriau, ond pa wmredd yn eu hymarweddiad, yn eu hymddygiad tuag at eu cyd-ddynion! A dyma'r gwadiad gwaethaf o lawer. Mae aneirif mwy yn gwadu Duw a dwyfoldeb dyn trwy eu hymarweddiad beunyddiol nag a wna hyny fel mater o gredo neu broffes, ac y mae eu hatheistiaeth yn anghymharol waeth nag eiddo'r olaf. Ond i gymeryd pobl ar eu proffes, oblegyd cara pawb gael eu cymeryd ar eu gair, os yw Duw felly yn Dad a dyn yn frawd i'w gyd-ddyn, ai nid ein dyledswydd yw caru ein cyd-ddynion mewn modd ymarferol—yn unigol yn gyntaf feallai, ond nid yn unigol yn unig, eithr hefyd fel tylwythau ac fel cenedloedd? a charu nid yn unig ein cenedl ein hunain ond cenedloedd ereill hefyd, am eu bod hwy yn blant i Dduw lawn cymaint a ninau? Yn anffodus, nid yw y mwyafrif o bobl wedi datblygu yn ddigon pell eto, hyny yw, nid yw eu crefydd, eu Cristionogaeth wedi dod yn beth digon sylweddol, iddynt allu gweled y dylasai yr un gyfundrefn o foesoldeb ffynu rhwng cenedloedd ag a ffyna rhwng unigolion. Ni ymestyn eu cydymdeimlad fawr os dim tuhwnt i gyffiniau eu gwlad eu hunain ; nid yw eu crefydd ond peth cyfyngedig ar y goreu, ac nid yw yn gymhwysiadol i holl amgylchiadau bywyd fel ag y dylai fod. Iddynt hwy mae pethau fyddent yn hollol *wrong* ac yn haeddu'r cerydd a'r gosp lemaf yn fynych rhwng dau

ddyn unigol yn bethau iawn a chymeradwy yn aml rhwng dwy wlad. Dywedant gâs-bethau ac anwireddau disail am wlad arall deimlant yn ddig wrthi, fel y gwna rhai pobl yn awr yn y wlad hon am yr Almaen ; edliwiant bob drwg bron iddi, ac ar

Adegau o wallgofrwydd cenedlaethol

änt mor bell a chyfiawnhau ac hyd yn oed cymeradwyo lladd ei thrigolion yn yr hyn a elwir yn rhyfel, pan na feddylient am eiliad am wneud un o'r pethau yma i un dyn unigol o genedl arall ac y teimlent ei fod yn sarhad ar eu cymeriad pe awgrymai rhywun hyny am danynt. Mae eisiau eangu eu drychfeddwl o grefydd a dangos iddynt na chyfyngir hi o fewn cyffiniau unrhyw wlad nac i gysylltiadau unigolion â'u gilydd, ond ei bod mor eanged a'r moroedd ac yr un mor gyfaddas i berthynas un wlad i'r llall ag yw i berthynas dau ddyn i'w gilydd. Nis gall yr hyn sydd yn *wrong* rhwng dau ddyn unigol byth fod yn *right* rhwng dwy deyrnas. Pe gellid cael gan fwyafrif y bobl yn mhob gwlad i gredu a sylweddoli hyn, a'i gario allan mewn modd ymarferol, ceid terfyn buan ar ryfeloedd a son am ryfeloedd. Dyna amcan yr ysgrifenydd yn y llinellau hyn, ac hydera y ca gefnogaeth ei ddarllenwyr.

Mae llawer iawn o gynydd wedi ei wneud yn y cyfeiriad hwn yn barod. Yn nghyflwr iselaf cymdeithas mae pob dyn yn rheol iddo'i hun ; rheolir ei ymarweddiad yn hollol bron gan ei les personol ei hunan, ac ni chymer i ystyriaeth fudd a lles ereill. Os bydd i arall gyfyngu, fel y tybia, ar ei hunanles ef, mae yn barod i'w hamddiffyn trwy apêl at drais ; ni ymestyna ei gydymdeimlad tuallan iddo'i hunan—nid yw wedi dysgu hyd yn oed ystyr elfenol y gair aberth. Gydag amser, ymhelaetha ei gydymdeimlad fel ag i gynwys ei deulu a gwneud iddo deimlo dros ei wraig a'i blant i ryw raddau fel y gwna drosto'i hun. Ond y mae pawb tuallan i'r cylch cyfyngedig yma yn elynion iddo ac yn ysglyfaeth deilwng, fel y cred, i'w allu a'i gyfrwysdra ef ; yn ol ei gyfundrefn ef o foesoldeb mae pob cwrs o ymddygiad yn iawn tuag at bawb tuallan i'w deulu, ac ni phetrusa hyd yn oed fyn'd mor bell a lladd un neu ragor o honynt os bydd hyny, neu y cred y bydd, i hyrwyddo ei les ef. Ond tufewn i'r teulu mae bywyd wedi enill rhyw gymaint, beth bynag, o gysegredigrwydd. Yn raddol gwawria ar feddyliau rhai o'r mwyaf deallus a phell-dremiol o'r penteuluoedd y byddai yn well iddynt ymuno â'u gilydd a gweithio gyda'u gilydd yn hytrach nag ymladd yn erbyn eu gilydd, ac felly daw llwythau neu dylwythau (*tribes*) i fodolaeth. Ant hwythau trwy yr un cwrs o ddatblygiad — cwerylant ac ymladdant â'u gilydd, ac ystyriant ef yn wrhydri mawr i ladd a chlwyfo eu gelynion, ond pwy bynag a laddo aelod arall o'r un llwyth dygir ef i brawf a chondemnir ef i gosp o ryw fath. Fel yma mae pethau wedi datblygu nes y mae'r llwythau wedi ymuno i ffurfio cenedloedd, a chenedloedd hefyd i ryw raddau wedi ymuno â'u gilydd, fel yn Ynys Prydain. Ar y cyfan, er hyny, erys cenedloedd ar wahan hyd yn hyn, ac er fod gwareiddiad yn uwch heddyw nag erioed, eto cadwant i fyny i raddau helaeth yr un safon o foesoldeb y naill tuag at y llall ag a fodolai rhwng y llwythau yn eu dydd. Yn mhob gwlad wareiddiedig bron mae lladd yn drosedd a gospir hyd lythyren eithaf y gyfraith, hyny yw, bywyd am fywyd ; ond os bydd dwy wlad wedi cweryla â'u gilydd ac wedi myn'd i ryfel, ystyrir hi nid yn unig yn anghyfiawn ond yn beth clodfawr dros ben i ladd cymaint ag a ellir o'r "gelynion"—gore' i gyd po fwyaf—ac anrhydeddir tu hwnt i bawb bron y milwyr a'r gwladweinwyr ydynt wedi bod yn achos i ladd canoedd os nad miloedd o'n cyd-ddynion. Os yw yn *wrong* i ladd un, pa fodd y gall byth fod yn iawn i ladd cant? ond os yw yn iawn i wneud yr olaf, paham y mae yn *wrong* i wneud y blaenaf? Yn sicr mae rhyw wall

rhyfedd yn y rhesymeg hon. Yr un yw bywyd dynol yn mhob man—yn mhob gwlad, ac y mae yr un mor werthfawr a'r un mor gysegredig yn nghysylltiadau y gwledydd â'u gilydd ag yw o fewn terfynau unrhyw wlad. A dyna sydd eisiau wneud, sydd raid wneud, cyn gwneud i ffwrdd â rhyfel—sef eangu syniadau a chydymdeimladau y bobl yn mhob gwlad fel y delont i weled fod trigolion unrhyw wlad arall pwy bynag, er gwaethaf llawer o wahaniaethau yn fynych, rhai yn naturiol a rhai heb fod, yn frodyr ac yn chwiorydd iddynt hwy, ac y dylai eu bywydau fod mor sanctaidd yn eu golwg a'u bywydau eu hunain; yn mhellach, fod

LLES GOREU POB GWLAD

a chenedl yn dibynu ar les gwledydd a chenedloedd ereill, am mai bodau dibynol ar ein gilydd ydym, ac y cyrhaeddem oll y cyflwr uchaf o berffeithrwydd moesol a materol trwy gydweithredu a chydymddwyn hefyd, os byddai angen, â'n gilydd, yn lle gweithio yn erbyn a mynwesu teimladau drwg tuag at ein gilydd, y rhai ydynt bron yn sicr o arwain yn gynar neu yn ddiweddar i ryfel. Wedi'r cyfan, ni fyddai hyn ond cam yn mlaen ar lwybr datblygiad, cam a fyddai yn unol âg addysgiadau goreu ac uwchaf crefydd, ac a wnai ddwyn teyrnas nefoedd yn nes ar y ddaear; gallwn deimlo yn hyderus ac yn ffyddiog, felly, ac yn wir yn berffaith sicr ei fod yn gam roddir, a hyny heb fod yn hir, gan wledydd gwareiddiedig y byd.

Hwyrach fod rhai yn barod i ddweyd erbyn hyn mai gwastraff ar amser a gofod yw ceisio profi fod rhyfel yn groes i addysgiadau crefydd a moesoldeb, am fod pawb bron yn barod i gydnabod hyny; y pwnc pwysig, dychmygwn eu clywed yn ddweyd, yw dangos *sut* i wneud i ffwrdd â rhyfel, os yw o gwbl yn anocheladwy. Cyfaddefwn yn rhwydd fod mwyafrif pobl yn hawdd ganddynt gydsynio â'r honiad nad yw rhyfel yn unol âg addysg Iesu Grist, ond a gredant hyny o eigion eu calonau sydd amheus genyf. Safbwynt llawer, a'r rhan fwyaf, yw fod rhyfel, er yn fawrddrwg ynddo 'i hun, yn anocheladwy gyda'r natur ddynol fel ag y mae, ac yn ddiameu cyhyd ag y cred y mwyafrif hyny ei fod felly. Ond ai ni awgryma hyn feddwl isel iawn am y natur ddynol? A yw hi felly wedi cyrhaedd eithafbwynt ei datblygiad? Oes dim rhagor o gynydd yn bosibl iddi? Dyna awgryma'r gred, ac y mae yn

ANHEILWNG O DDUW A DYN,

ac yn groes i holl brofiad y ddynoliaeth. Na, nid yw rhyfel ddim yn anocheladwy, nis gall y fath blâ ar y ddynoliaeth byth fod wedi ei fwriadu i fod yn dragwyddol; byddai credu hyny yn enllib ar Dduw a dyn. Peidier credu ei fod yn anocheladwy a bydd y cam cyntaf a cham pwysig iawn wedi ei gymeryd er gwneud i ffwrdd âg ef. Cyhyd ag y cred mwyafrif y bobl nas gellir dianc rhagddo diameu y bydd yn anodd gwneud hyny, ond cyn gynted ag y deuant i gredu y gellir ei ochelyd bydd cnul ei dranc wedi ei seinio; oblegyd ai nid yw ffydd yn alluog i symud mynyddoedd? Ac y mae sail dda a digon i gredu y bydd rhyfel i ddiflanu cyn hir o bob gwlad wareiddiedig—nid honiad direswm neu gred ddisail yw. Mae rhyfel yn barod er's yn agos i ganrif o leiaf yn graddol, ond yn sicr, ddiflanu o blith cenedloedd ydynt wedi cyrhaedd gradd gweddol uchel o wareiddiad. Gŵyr pawb hyn ag sydd wedi gwneud yr astudiaeth leiaf o hanes; nid oes eisiau ond cymharu dechreu y ganrif bresenol âg eiddo y ganrif o'r blaen er gweled y cynydd mawr sydd wedi ei wneud. Mae'n wir fod llawer i'w wneud eto cyn cyrhaeddwn ein hamcan o ddiddymu rhyfel yn gyfangwbl allan o'r tir, a dyma waith ag y dylai pobl grefyddol—wir grefyddol yn enwedig—ymgymeryd âg ef, oblegid ni fyddai nemawr i ddim wnai fwy i ddwyn teyrnas Dduw oddiamgylch ar y ddaear na diddymiad rhyfel. Ond

hyd yma nid yw hyny wedi dod i ben —hyd yn oed yn ystod y ganrif hon yr ydym ragor nag unwaith wedi gorfod gwel'd yr olygfa drist o ddwy wlad wareiddiedig mewn enw yn apelio at fin y cledd er ceisio penderfynu ymrysonau a chwerylon nas gall cledd byth eu penderfynu, ond y rhai raid eu penderfynu, wedi'r cyfan, ar ddiwedd y rhyfel trwy i gynrychiolwyr y ddwy wlad gwrdd â'u gilydd i gydymddiddan, cydymgynghori a chydymresymu yn eu cylch. Heblaw y rhyfeloedd sydd wedi cymeryd lle y ganrif yma, y mae llawer o son yn y dyddiau rhain am ryfel arall ddywedir wrthym gan rai pobl ydynt fel pe baent am ein dychrynu allan o'n synwyrau, sydd yn sicr—yn rhwym, meddent hwy—o gymeryd lle rhwng y wlad hon a'r Almaen. Ac yr awrhon dyma'r peth pwysig ini, beth bynag i bob carwr heddwch, sef gwneud y rhyfel tybiedig yma yn anmhosibl trwy geisio cadw'r bobl, neu y mwyafrif ohonynt, *yn* eu synwyrau, oblegid os y cadwant eu synwyrau priodol ni raid ini ofni y bydd i ryfel dori allan rhwng y ddwy wlad. Gaf fi felly apelio at holl ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, yn unigol ac fel cyfangorph, at ein henwad yn Nghymru ac at bawb ddigwydd ddarllen y llinellau hyn, i roi eu crefydd a'u proffesiadau dros heddwch (oblegid credaf fod y mwyafrif mawr ohonynt yn bleidiol i heddwch) mewn ymarferiad trwy wrthweithio yn mhob modd yn eu gallu yr effeithiau cas a throfäus grëir gan y "brawychwyr." Beth allwn ni wneud, meddech? Yn gyntaf oll, *credwch*—credwch mewn gwirionedd yn yr hyn broffeswch gredu ynddo—yn egwyddorion sylfaenol crefydd ac yn y posiblrwydd o'u haddasu at amgylchiadau y byd a'r bywyd hwn. Peidiwch credu yr oll ddywed y newyddiaduron am yr Almaen a'i phobl, ac yn enwedig am ei chynlluniau tybiedig yn erbyn y wlad hon. Yn hytrach treiwch ddod i adnabod yr Almaenwyr fel ag y maent—os yn bosibl ewch am dro i'r wlad, cymysgwch â'r bobl, gwnewch gyfeillion â hwynt, a chadwch y gyfeillgarwch i fynu; treiwch gael gan eich plant i deimlo dyddordeb yn y wlad a'i thrigolion, i ddysgu'r iaith ac i gyfeillachu trwy lythyrau â rhai o blant yr Almaen. Os y gwnewch hyn chwi gewch allan fod y bobl yno yn debyg iawn i ni—nid yn berffaith, mae'n wir, nid yn angylion, ond ar y cyfan yn caru'r da yn hytrach na'r drwg, eu bod yn bobl hynod garedig, meddylgar a deallus, ac yn llawn mor awyddus am heddwch a ninau. Ac yn lle edrych ar y brycheuyn yn llygaid eich brawd Almaenaidd, rhowch eich sylw i'r trawst yn ein llygaid ni fel Brythonwyr, a cheisiwch gan ein Llywodraeth roi fyny'r hawl hònant sydd ganddynt i ddinystrio llongau masnachol y gelyn a'u cynwys ar y môr yn amser rhyfel. Gwnai hyny fwy na dim, efallai, i wneud i ffwrdd â'r gystadleuaeth andwyol rhwng y ddwy wlad mewn llongau rhyfel. Ac yn olaf peidiwch colli un cyfleusdra i ddangos eich ffydd yn egwyddorion heddwch ac i'w hanog ar ereill.

D.J.D.

GWAEAU'R CYFOETHOG.

Lleihau ac nid cynyddu dedwyddwch dyn y mae cyfoeth. Anfynych y cwrddir â miliwnydd a fedr chwerthin. Y truenusaf o ddynion, pan ddelo henaint, yw'r cyfryw hyny ag sydd wedi gwneuthur casglu arian yn dduw iddynt eu hunain.—ANDREW CARNEGIE (*in* "*World's Work.*")

Y DIWEDDAR DDOCTOR EDWARD EVERETT HALE.

Dydd Iau, Mehefin 10fed, bu farw Edward Everett Hale, yn Moston, U.D.A. Efe oedd y gweinidog Undodaidd a berchid ac a anwylid fwyaf drwy holl Amerig, a gellid ychwanegu'n ddibryder, a thrwy'r holl fyd. Adnabyddid ef er's blynyddoedd bellach fel *Grand Old Man* Lloegr Newydd. Ganwyd Ebrill 3, 1822, graddiodd yn Mhrifysgol Harvard, ordeiniwyd yn 1846 yn Worcester, Mass., bu am ddeng mlynedd yn weinidog *The Church of the Unity* yn y ddinas honno, ac yna am 43 mlynedd yn *South Congregational* (*Unitarian*) *Church*, Boston. Gosodwyd arno'r anrhydedd fwyaf ellid roddi i unrhyw weinidog, sef Caplaniaeth Senedd yr Unol Dalaethau.

Nid tystiolaeth fechan i ddylanwad braf Undodiaeth yw hyn, fod cynifer o Lywyddion yr Amerig, a'r Llywydd presenol—Taft—yn eu plith, wedi bod yn Undodiaid, fod Edward Everett Hale yn gaplan i'r Senedd yn mhell cyn ethol Mr. Taft yn Llywydd, ac fod bywyd llenyddol y wlad fawr hono dan fwy o rwymedigaeth i'r enwad Undodaidd nag i unrhyw un corph crefyddol arall. Ysgrifennai Dr. Hale lawer iawn, ac mae wedi 'i ddesgrifio fel yr olaf o'r nifer rhyfeddol hwnw o gewri meddyliol a roddodd y fath symbyliad i lenyddiaeth ac i welliantau cymdeithasol a gwleidyddol yr haner gyntaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg—dynion fel Emerson, Oliver Wendell Holmes, Hawthorne, Lowell, Longfellow, a Whittier. Efe oedd awdwr "*The Man without a Country*," yr ystori fer oreu a ysgrifenwyd gan frodor o'r Amerig erioed. Yn mhlith ei weithiau ceir "*Ten Times One*," "*In His Name*," "*James Russell Lowell and His Friends*," a "*Memories of a Hundred Years*." Er iddo enill gwir enwogrwydd dygai ei anrhydedd a'i enw da gyda'r gwyleidd-dra mwyaf. Ni honnai uchafiaeth. Yr oedd yn Undodwr proffesedig ac ymdrechgar, ond perthynai yn fwy i'r Eglwys Lân Gatholig nag i unrhyw sect arbenig. Meddai arabedd o nodwedd anghyffredin iawn. Yr oedd yn llawen ond hefyd yn lân, ac yn llawn o swyn y dyn gwir dduwiolfrydig. Yr oedd ei oreuaeth (*optimism*) yn anwrthwynebol, ei gatholigrwydd (*catholicity*) yn ddiderfyn, ei gariad at ei gyd-ddyn a'i amynedd yn ddibendraw. Odid y ceir eglurhad ar ei dduwioldeb llawen —canys perthynai i urdd gysegredig y *joculatores domini*— yn ei gyngor i fyfyrwyr Harvard : "Byddwch yn yr awyr iach hyd y gellwch, cymdeithaswch bob dydd a'ch gwell, a throwch beunydd yn mhlith y cyffredin." Ysgrifenodd William Morris unwaith, "O fel y dyheaf am allu lluddias y byd i'm cyfynghau, ac y dymunaf am allu edrych ar bethau'n eangfrydig a charedig." Dyna fel yr edrychai Dr. Hale ar bethau bob amser, ac ysgrifenodd ei fab am dano, "Yn bum mlwydd a phedwar ugain oed, mae cyn ifanced a'i feibion, ei wyrion, neu ei orwyrion."

Desgrifiodd un brodor o'r Amerig ef rai blynyddoedd yn ol fel hen wr lluniaidd, tal . . . a'i wyneb yn grych, ei lygaid llwyd yn glir a charedig tan gysgod tâl ei benglog mawr, a'i lais dwfn, cryf, cyfoethog, yn fynegiad lleisiol o'i lygaid caredig." Siaradai un arall am dano fel "St. Christopher Boston, y dygwr beichiau, y dyn a fu ddydd a nos yn cynllunio lles ei gyd-ddyn." Yr oedd yn bleidiwr cryf i Weriniaeth, yn Weriniwr mewn gwleidyddiaeth ; gwrthwynebai gaethwasiaeth drwy ei oes, a phleidiai wella cyflwr carchardai, cyfryngu rhwng cenhedloedd, a lliaws o achosion dyngarol eraill. Mae'n debyg iddo ef, fel y mwyafrif o weinidogion, ddioddef llawer oddiwrth bwyllgorau, o leiaf nid hoff ganddo lywodraeth swyddogol, a byrddau trefnu. "Byrddau," (*boards*), meddai,

"o goed y maent : maent yn gul a hir." Carai dynion ef am y carai ef ddynion. "Ystyriai ef hunanoldeb yn bechod," medd ei fab. "Hoffai ddynion, a chred yn gryf yn y natur ddynol. Credai fod yna un rheswm mawr dros ei fod yn Undodwr, nid am y câr wadu dwyfoldeb yr

Edward E. Hale

Arglwydd Iesu, ond am na fyn wadu dwyfoldeb dyn." Gofynodd gohebydd iddo unwaith sut y llwyddasai i fod yn gymaint optimist (*optimist*) drwy ei oes. Atebodd yn wylaidd "nad oedd ef wedi meddwl rhyw lawer am yr achos o hyny." Credasai bob amser yn Nuw, a theimlai

bob amser fod Duw yn Dad caredig, a ddanghosai iddo 'i ddyledswydd o ddydd i ddydd, ac a'i cynorthwyai i gyflawni'r ddyledswydd hono. Felly'r aethai'n ei flaen yn cyflawni'r peth nesaf i law, yn ymddiried yn Nuw, ac heb erioed ei gael yn neppell oddiwrtho. Dyga hyn ar gof i mi ei nodyn rhyfedd yn ateb i un o ofyniadau yr Athro Starbuck. Dyfynna'r Athro William James ran o hono yn ei "*Varieties of Religious Experience*" (tud. 82-83). Dyma fel y dywed :—"Gwyddwn bob amser fod Duw'n fy ngharu, a theimlwn yn ddiolchgar iddo am y byd y gosododd fi ynddo. Hoffwn bob amser ddywedyd hyny wrtho, ac i dderbyn ei awgrymiadau i mi ar bob adeg." Dyna gyfaddefiad rhyfeddol, dywediad enaid yn ofni Duw, ac eto enaid bron ar delerau teuluol yn ei agosedd cariadlawn at Dduw. Byddai geiriau fel yna bron yn rhyfyg yng ngenau unrhyw un arall. Ond o wefusau Hale maent fel baldordd gweddi plentyn wrth erchwyn gwely, neu fel ryw adsain doddedig yn dod i lawr drwy'r oesau o wefusau'r duwiol St. Francis. Mae copi o'i lyfr "*Ten Times One*," wedi ei lawnodi ganddo ef ei hun, ac arno nodyn dyddorol dros ben yn llaw'r awdwr yn rhoddi rhestr o "*The Author's Ten*" agosaf ato yn ngwaith bywyd yn 1870, pan ysgrifenwyd y llyfr, yn un o drysorau gwerthfawr fy llyfrgell. Gadawer i mi derfynu hyn o gofiant drwy ddyfynu'r arwyddeiriau nodedig a ganlyn o'r llyfr hwn.

" Look up and not down,
Look forward and not back,
Look out and not in, and
Lend a hand."

J. M. Lloyd-Thomas.
Nottingham.

CYMANFA GANU CEREDIGION.

Os bwriada rhywun ysgrifenu hanes yr achos Undodaidd yn Ngheredigion peidied anghofio y Gymanfa Ganu. Fyddai'r hanes ddim yn gyflawn heb ei hanes hi ; a diamheu mai dyled ein heglwysi i'r Gymanfa yn fawr. Cyfeirir at Ganiadaeth y Cysegr weithiau fel "llaw forwyn crefydd," ac nid yw'r enw yn anmhriodol ychwaith. Mae ein hachos yn Sir Aberteifi wedi cael morwyn dda yn y Gymanfa Ganu—morwyn ag sydd wedi gwneud yr hyn mae llawer morwyn wedi fethu wneud, sef aros yn y gwasanaeth am ddwy flynedd ar bymtheg heb dorri ar ei chyflog gymaint ag unwaith. Tuedd ambell i forwyn yw gwaethygu os arosai'n hir yn yr un gwasanaeth, ond nid dyna hanes hon ; morwyn dda a ffyddlawn ydyw, a morwyn sy'n gwneud gwaith ardderchog flwyddyn ar ol blwyddyn. Os bydd morwyn yn y tŷ weithiau yn methu gwneud yr oll a ddylai, ac yn y ffordd a ddylai, nid arni hi o angenrheidrwydd mae'r bai. Mae'n bosibl i'r meistr neu'r feistres roi anhawsderau ar ei ffordd. Nid digon cael morwyn dda, rhaid rhoi cyfle iddi wneud ei gwaith a chyflawni ei dyledswyddau. Morwyn dda a ffyddlawn yw y Gymanfa Ganu ; os metha weithiau wneud yr oll a ddymunem peidiwn beio'r forwyn, ond chwiliwn am y rhai fu'n gosod rhwystrau ar ei ffordd. Os yw'r forwyn i wneud gwaith da rhaid iddi gael defnyddiau da ar

gyfer hyny. 'Dwyf fi ddim yn siwr fod aelodau y Pwyllgor wedi gwneud perffaith chwareu teg a'r forwyn y flwyddyn hon. Disgwylient arni ddarparu gwledd heb roi, yn ol fy syniad i, ddefnyddiau teilwng iddi ar gyfer gwneud gwledd; ond chwareu teg i'r forwyn fe wnaeth yn rhagorol o'r hyn oedd ganddi. Oddiar y gwelais y rhaglen gyntaf nid oedd genyf fawr olwg arno, ofnwn fod y tônau yn rhy debyg i'w gilydd, ac fod y nifer luosocaf o honynt yn amddifad o'r elfenau hyny sy'n peri i ddyn anghofio'i hunan a'i ofalon wrth geisio moli'r Arglwydd. I mi, doedd dim digon o'r mawreddog yn y rhagleni. Meddyliwn weithiau mai ynof fi oedd y diffyg, ond dydd y Gymanfa "rhyw gyfreithiwr" yn nghyd a'r arweinydd am y dydd a ddywedasant yr un peth, ac aethum innau yn gerddor yn fy ngolwg fy hun. Gofaled y pwyllgor wneud y gwaith yn rhwydd a phleseraidd i'r forwyn y flwyddyn nesaf.

Darparodd y forwyn ei gwledd eleni yn Llwynrhydowen, ar y gfed o Fehefin. 'Doedd y diwrnod ddim yn addaw yn rhy dda yn y boreu—boreu niwlog a chymylog oedd—ond bu'n well na'i addewid, a chafwyd hîn ffafriol iawn. Yr oedd nifer y cantorion a'r gwrandawyr, os dim, yn fwy nag arferol. "Tyrfa yn cadw gwyl" oedd hi y boreu, ac yn neillduol felly y prydnawn, a'r capel yn llawer rhy fychan. Clywais lawer yn achwyn fod y lle yn rhy fach. Teimlwn hyny fy hunan weithiau, brydiau eraill teimlwn yn falch wrth weled cynulliad o Undodiaid yn myned yn fwy na'r adeilad. Dechreuwyd y cyfarfodydd drwy ddarllen a gweddio gan y Parchn. R. C. Jones, Llanbedr, a J. Davies, Alltyplaca. Llywyddwyd yn y boreu gan un o leygwyr goreu yr enwad yn y cylch, sef, Mr. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul, yr hwn a draddododd araeth hapus a phwrpasol. Bu y Parch. E. Ceredig Jones mor garedig a chyflawni y ddyledswydd ag oedd y pwyllgor wedi fwriadu i'r diweddar Cadben Davies gyflawni, sef llywyddu yn y prydnawn, a thraddododd yntau araeth effeithiol.

Yr arweinyddion oeddynt Mr. T. Glyndwr Richards, Mountain Ash, a Mr. J. Jones (Rhydowen), Aberteifi, yr olaf yn arwain y plant. Yr oedd pedair tôn yn fywiog a melus ar gyfer y plant, a'r plant yn fywiog a melus ar gyfer y tônau. Gwnaeth yr arweinydd a'r plant yn ardderchog.

Gallasai y rhan fwyaf o honom ddweyd am Mr. Richards o'r blaen, "Mi a glywais son am danat," ond bellach dyma ni wedi ei weled a'i glywed, ac yn ddiamheu "gwir yw y gair" mai arweinydd medrus ydyw. Enillodd ymddiriedaeth y cor, ac enillodd y cor ei longyfarchiad yntau. Y tônau godasant fwyaf o hwyl oeddynt Aberystwyth, Darwell, Diniweidrwydd, Tangnefedd, Tosturi. Mr. Glyndwr Richards yw awdwr yr anthem a ganwyd, "Pa le mae Gwaredwr Israel?" Wn i ddim beth feddyliai yr awdwr am y datganiad, ond gwn fod y cerddorion mwyaf yn gwahaniaethu yn eu barn weithiau, ac efallai y caf ddyweyd ei bod, yn ol fy marn i, wedi mynd yn hwylus, yn neillduol felly y pedwarawd gan y merched, a'r unawd gan Mr. E. S. Davies, Llanbedr. Yn ystod cyfarfod y boreu cafwyd anerchiad gan Proff. Phil. Moore, Caerfyrddin.

Da, forwyn, da a ffyddlon, gwnest wledd ardderchog i ni. Gobeithio y bydd i ti ein gwneud i gyd yn fwy ffyddlon a gweithgar.

Y cyfeilyddesau oeddynt Mrs. Thomas, Ystrad; Miss Lena Evans, Alltyrodyn Arms; a Miss Lee Thomas, Llanbedr. Credaf fod ein diolchgarwch gwresogaf yn ddyledus i'r Ysgrifenydd, Mr. D. Martin Jones, Gwion Castle. Gweithiodd yn galed gyda gwyneb llon, ac nid arbedodd ei hun. Cafwyd gwasanaeth rhagorol hefyd yn yr hwyr. Aeth y Parch. Lewis Williams drwy y rhan ddefosiynol, a phregethodd y Parch. E. Ceredig Jones bregeth ymarferol ac amserol iawn.

E.O.J.

PRIODAS.

MEHEFIN 2, yn nghapel Alltyplaca, gan y Parch. D. Evans (yn absenoldeb anocheladwy y gweinidog), a cher bron Mr. Titus Evans, y cofrestrydd, unwyd Mr. George Boyer Evans, Glanduar, Llanybyther, mewn priodas â Miss Martha Thomas, Ffinant Arms.

Pob hawddfyd a dedwyddwch pur
A llwydd a'ch hir ddilyno ;
Hyn mae'ch cyfeillion yn mhob man
O galon yn ddymuno.

MARWGOFION.

MAI 11, yn 77 mlwydd oed, David Howells, Ystrad House, Llanfihangel Ystrad. Yr oedd yr ymadawedig wedi ei freintio ag iechyd da hyd oddeutu tair blynedd yn ol, pryd y dechreuodd glafychu. Tua chwech mis yn ol tarawyd ef gan y parlys, a gwael iawn y bu oddiar hyny. Yr oedd wedi bod yn gwasanaethu fel saer ar ystad Captain Vaughan, Brynog, am oddeutu trigain mlynedd. Tystia'r ffaith ei fod wedi gwasanaethu yr un meistr am cyhyd o amser ei fod yn ddyn o gymeriad gonest a ffyddlon. Yr oedd yn aelod o eglwys Rhydygwin, ac ni fu gwell aelod mewn un eglwys erioed. Yr oedd yn fawr ei sel dros yr eglwys, a bydd yn golled fawr iddi ar ei ol. Hawdd i ddyn fel efe oedd a llaw yn mhob peth perthynol i'r eglwys oedd cyfarfod weithiau a rhai fyddai yn gwahaniaethu ag ef yn eu barnau ar rai materion, ond yr oedd mor hynaws fel na welwyd erioed o hono wedi ei gyffroi ; a byddai bob amser yn barod i dderbyn cynlluniau rhywrai eraill pan y byddent yn rhagori ar ei gynlluniau ef, a chydweithio i gario'r cynlluniau allan i orpheniad. Yr oedd y rhinwedd hon ynddo wedi enill iddo le cynes yn nghalonau ei gyd-addolwyr. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Wiliams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R.C. Jones, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Ficer. Yr oedd plethdorchau heirdd wedi eu danfon i'w gosod ar ei feddrod. Yr oedd un o honynt wedi ei danfon gan Captain Vaughan a'i deulu, ac arni y geiriau canlynol : —"In affectionate remembrance of a faithful servant and friend." Gadawodd weddw, dwy ferch, un chwaer, ac wyrion mewn dwfn dristwch ar ei ol. Y nef a'u diddano.

MAI 26, yn 67 mlwydd oed, Mrs. Ann Daniel, gwraig Mr. David Daniel, Drewen, Dihewyd. Un hoff o'i chartref oedd yr ymadawedig, ac os y byddai eisieu ei gweled, yno yr oedd ei chael. Ond er nad oedd o duedd gyfeillgar, eto nid oedd neb mwy serchog na hi yn ei chartref. Claddwyd yn mynwent capel Dihewyd. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. T. Parry, gweinidog yr eglwys, a chynorthwywyd gan y Parch. L. Williams. Nid oedd ond tuag wythnos oddiar pryd yr oedd angladd yno o'r blaen ; cymerwyd y pryd hwnw ŵyr bychan i'r ymadawedig. Cydymdeimlwn yn fawr â'r priod, ac â'r mab a'i wraig, yn y profedigaethau chwerwon sydd wedi eu goddiweddyd.

MAI 28, ar ol naw niwrnod o gystudd poenus, yr hwn a ddioddefodd gydag amynedd canmoladwy, bu farw David Cledwyn, mab Tyssul Davies, Contractor, Ardwyn, Trecynon, Aberdar. Y mae cydymdeimlad cyffredin gyda'r teulu yn eu galar

mawr ar ol un oedd bob amser mor serchog. Yr oedd Cledwyn yn fachgen disglaer a deallus hwnt i'r cyffredin, yn amddiffynydd i'r gwan a phet ei gymdeithion yn mhob man. Dydd Mawrth, dydd yr angladd, daeth lluaws mawr yn nghyd o bell ac o agos ac yn cynrychioli pob dosbarth o'r dref a'r gymydogaeth. Danfonwyd *wreaths* gan (1) Ysgol Sul yr H.D.C. ; (2) gweithwyr Mr. D. ; (3) W.T., Cwnrig Cottage, a D.J.J., Broniestyn ; (4) Mr. a Mrs. D. W. Price ; (5) Mr. Herbert Stone ; (6) Mr. a Mrs. Jones, Glyndwr. Dygwyd pob o dusw hefyd gan D. W. Davies, W. Davies, T.G.Morgan ; T.J.Lewis,W. P. Davies, ac R. Jones, cymdeithion ieuainc yr ymadawedig. Gwasanaethwyd gan R.J.J., Hathren, Grawys (A.) a Cynog Williams (B.). Yr oedd y Parchn. H. A. Davies (A.), Sulgwyn Davies (A.), J. M. Jones, M.A. (A.), ; T. Morgan (M.), T. Powell (M.), H. T. Stephen (M.) hefyd yn bresenol, a phe buasai amser yn caniatau, caresid clywed y gair o ddiddanwch a chysur oddiwrth bob un o honynt. Canwyd dau emyn, "'Rwy'n sefyll ar dymhestlog lan," &c., wrth y tŷ, ac "Ni gawn gwrdd tu hwnt i'r afon," &c., ar lan y bedd. Duw pob diddanwch a estyno ei aden warcheidiol dros y galarwyr ac a'u galluogo i ymgysuro yn y gobaith Cristnogol o gael cwrdd yn y wlad well.

"We leave thee with a trust serene,
Which Time, nor Change, nor Death can move ;
While with thy childlike faith we lean
On Him whose dearest name is Love."

"Cledwyn anwyl, cynar rosyn,
Delw'th dad a phet dy fam,
Pa'm y ciliaist ? Gwnest ein siomi,
Dywed wrthym—gest ti gam ?—
'Mamma, dada, nid fel yna,
Peidiwch camesponio'r drefn,
Cewch yn fuan bob esponiad—
Ni wnes i ond troi fy nghefn.

Mae'r pneumonia wedi myned,
Loesau'r 'pleuris'—llwyr iachad,
Yn y wlad 'rwyf heddyw ynddi
Nid oes yma ond mwynhad ;
Peidiwch wylo, ffrindiau lawer
Sydd o'm cwmpas, oll yn bur
Ac addawsoch cyn im' adael,
Cawn eich gweled cyn bo hir.

'Nawr dros enyd byddwch foddlawn,
Plygwch i'r Ewyllys fawr,
Perchen ffydd all weled oreu
Ddyrys droion teulu'r llawr ;
Mae fy nghorff mewn hedd yn gorphwys,
Cynes wely, melus hun ;
Gwelaf draw yr hyfryd foreu
Caf fi godi ar ei lun.'

O'r "Darian."] UN A'I CARAI.

MEHEFIN 15, bu farw David Evans, Mynach Arms, Cribyn, yn 58 oed. Er nad oedd ei iechyd yn dda er's cryn amser, eto bu ei symudiad ar y terfyn yn un dirybudd iawn —ni pharhaodd ei gystudd olaf ond ychydig oriau. Gadawodd mewn galar dwys ar ei ol briod, pump o blant, mam, brawd, a chwiorydd, a lluaws o berthynasau agos. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono y Sadwrn canlynol yn mynwent eglwys Cribyn. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, wrth y drws gan y Parch. L. Williams, a phregethwyd yn yr eglwys gan y Parch. J. C. Owen, y ficer, oddiar y geiriau, "Gosodwyd i ddynion farw unwaith." Daeth nifer fawr yn nghyd i ddangos eu parch i'r ymadawedig a'u cydymdeimlad â'r teulu yn eu galar. Nerth a gaffo'r weddw a'r plant a'r perthynasau oll i ymdawelu yn eu tristwch.

MEHEFIN 15, yn 69 oed, bu farw John Jones, Hendryd, Llanbedr, ar ol ychydig fisoedd o gystudd, gan adael mewn galar dwys ar ei ol chwech o blant ac un chwaer. Dydd Sadwrn canlynol hebryngwyd ei weddillion marwol i orphwys yn mynwent Caeronen yn ymyl ei briod a thri o'i blant, gan dyrfa fawr o berthynasau a chyfeillion. Gwasanaethwyd yn y ty cyn cychwyn gan

weinidog Capelygroes, ac yn Nghaeronen gan weinidog y lle. Traddodwyd y bregeth angladdol yn Nghapelygroes y Sul canlynol i glywedigaeth cynulleidfa luosog iawn oddiar Ioan xiv. 1 a 2. Diamheu y teimla'r teulu (yn enwedig felly y ferch a'r mab oedd gydag ef yn nhre) golled fawr ar ei ol, ac y gwelant ei le yn wag iawn am amser maith. Nerth a gaffont i edrych ar y cyfnewidiad yn y goleu iawn, ac i beidio galaru yn ormodol.

MEHEFIN 23, yn 72 oed, David Davies, The Alma, Llandyssul. Ni chafodd yr ymadawedig ond cystudd byr iawn, ac yr oedd ei farwolaeth yn anisgwyliadwy i bawb. Yr oedd yn un o hen gymeriadau Llandyssul, a chan ei fod wedi ei ddonio a thalent gerddorol uwchlaw'r cyffredin, cymerai ran amlwg pan yn ddyn ieuanc er diwyllio cerddoriaeth yn y lle a'r ardal. Yr oedd yn aelod o seindorf bres enwog y Bronwydd, ac wedi bod yn arweinydd yr un sydd yn y lle yn bresenol ; bu yn chwareu yr *harmonium* un adeg yn eglwys y plwyf a Phantdefaid pan nad oedd ond ychydig iawn fedrai'r gelfyddyd. Gadawodd briod, merch a mab,—y Parch. J. Tyssul Davies, B.A., yn awr o Colombo, Ceylon. Prydnawn Sadwrn canlynol, claddwyd yr hyn oedd farwol ohono yn mynwent eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins, yn yr eglwys a'r fynwent gan Ficer a Churad y plwyf.

MEHEFIN 27, yn 7 mis oed, Gwyn Lloyd, mab bychan Mr. a Mrs. James Thomas, Bradford House, Llandyssul. Claddwyd y dydd Mercher canlynol yn mynwent Capel Seion. Gwasanaethwyd yn y ty gan Ficer y plwyf, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. Arthur Thomas. Cofied y rhieni yn eu galar eiriau Iesu, — "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

MAI 21, ar ol cystudd byr, David, plentyn Mr. David James Daniel a Mrs. Margaret Daniel, Drewen, Dihewyd, yn ddwy flwydd oed. Claddwyd yn mynwent Capel Mydroilyn, a gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams.

MANION AC HANESION.

UNDEB GWEINIDOGION CEREDIGION.—Cynhaliwyd cyfarfod chwarterol yr undeb uchod ddydd Iau, yr 20fed cyfisol, yn y Bedlwyn, preswylfod y Parch. Lewis Williams. Yn ychwanegol at y gweinidogion arferol yn nghyd a'u gwragedd, cawsom bresenoldeb y Parch. Tom Lloyd Jones, Lerpwl, a Mrs. Jones ; y Parchn. E. Ceredig Jones, M.A. ; E. E. Jenkins, Walmsley ; a J. E. Jenkins, Padiham. Estynwyd croesaw cynes i Mrs. Lloyd Jones ar ei hymweliad cyntaf a Sir Aberteifi fel priod ein cyfaill Tom. Croesawyd hefyd i Undeb y Gweinidogion y Parch. E. Ceredig Jones. Y mae Mr. Jones wedi ymddiswyddo o'r weinidogaeth ar ol gwasanaeth hir a llwyddianus yn Bradford a manau eraill, ac y mae wedi ymsefydlu i lawr yn ei hen ardal enedigol, a bwriada dreulio gweddill ei ddyddiau yn ngwasanaeth Undodiaid Ceredigion. Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad yn ei afiechyd a'r Parch. David Evans, Cribyn, gan ddymuno iddo adferiad buan. Ar ol ystyriaeth bwyllog penderfynwyd fod y cyfnewidiadau arferol i gymeryd lle eleni eto. Dydd i'w gofio am hir amser ydoedd y dydd hwn gan y rhai gawsant y fraint o fod yno.

ABERYSTWYTH.—Mae Eglwys yr Undodwyr yn Aberystwyth wedi penderfynu gwneud cyfnewidiad yn y *board* sydd ar fur eu capel yn New Street. *Protestant Dissenting Meeting House* oedd ar y *board* o'r blaen ; ond o hyn allan gwelir yr enw *Unitarian* yn eglur arno, fel na bydd yn bosibl i neb gamddeall na gwneud camgymeriad.

CASGLIAD BLYNYDDOL YR YSGOLION SUL.—Wele restr o'r oll o'r ysgolion a wnaethant gasgliad eleni. Mae rhai wedi anghofio ein cynorthwyo. Derbynied y rhai a'n cynorthwyodd ein diolchgarwch gwresocaf. Alltyplaca, 5s. ; Brondeifi, 7s. 6c. ; Capelybryn, 18s.; Caeronen, 6s. 7½c. ; Capelygroes, 6s. 1c. ; Cwmsychbant, 5s. ; Capelyfadfa, 4s. 4c. ; Cribyn, 4s. 1c.; Ciliau, 2s. 6c.; Hen Dy Cwrdd, Aberdar, 5s. ; Llandyssul, 16s. 5c. ; Llwynrhydowen, 6s. 9c.; Pantdefaid, 7s. ; Trebanos, 13s. 8c.

CYMANFA YSGOLION,—Cynhaliodd Ysgolion Sul Capelycwm, Capelybryn, Cribyn, Rhydygwin, a Chiliau eu cymanfa flynyddol yng Nghiliau ar yr 21ain o Fai. Yr oedd yr hin yn ddymunol, a daeth tyrfa luosog yn nghyd o'r gwahanol ysgolion. Holwyd yr ysgolion gan y Parchn. J. Davies, T. A. Thomas, E. O. Jenkins, a L. Williams. Yr oedd rhai o'r ysgolion yn lluosog iawn, a'r lleill gystal ag y gellid disgwyl iddynt fod. Aethant drwy eu gwaith yn ganmoladwy, a chafwyd cymanfa ragorol iawn. Lles mawr a ganlyno'r gymanfa.

RHYDYGWIN.,—Ar yr 17eg o Fai rhoddwyd gwledd o dê i aelodau a phlant yr Ysgol Sul gan y Parch. T. Lloyd Jones, Lerpwl, a'i wraig. Wedi i bawb gyfranogi o'r darpariaethau rhagorol awd i gae cyfagos, ac yno y bu y plant, a llawer o'r bechgyn a'r merched ieuainc hefyd, yn mwynhau eu hunain a chwareuon. Rhanwyd y gwobrwyon i bob un o honynt gan y Parch. T. Lloyd Jones, a chan y Parch. E. Ceredig Jones, yr hwn oedd hefyd yn bresenol ar yr achlysur. Mae Mr. Lloyd Jones wedi ymadael a'r lle yma er pan yn ddyn ieuanc, ac wedi treulio ei amser yn Lloegr. Yr oedd yn hyfrydwch mawr gan bobl Rhydygwin i gael cyfarfod ag ef wedi blynyddau lawer o absenoldeb, ac i gael croesawu Mrs. Jones i'r rhan hon o Gymru. Mae yn dda genym am y llwyddiant sydd yn dilyn ymdrechion Mr. Jones fel cenadwr yn Lerpwl. Mae ganddo eglwys sefydlog yno, a'i waith yw ceisio cael gafael ar y dosparth iselaf yn y lle. Mae llawer o gymdeithasau yn perthyn i'w eglwys, ac y mae pob un o honynt mewn sefyllfa lewyrchus iawn. Rhifa aelodau yr Ysgol Sul dros saith cant. Mae gan Mr. Jones weinidog arall yn ei gynorthwyo, ac hefyd nifer luosog o athrawon. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod adloniadol. Cymerwyd y gadair gan y Parch. T. Lloyd Jones, a chafwyd cyfarfod hwylus. Cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gan y gweinidog i'r Parch. T. Lloyd Jones a'i wraig am eu caredigrwydd, ac eiliwyd gan y Parch. D. Saunders Davies. Hefyd pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mrs. P.C. Thomas, Ystrad, a Miss Mary Ann Jones, Aldergate, am chwareu yr Organ, ac i Mr. Hughes, Rhydyfydr, am arwain y canu. Ar ddiwedd y cyfarfod rhoddodd Mrs. Lloyd Jones anrheg i bob un o'r plant sydd yn perthyn i'r Ysgol Sul. Canwyd "Hen Wlad fy Nhadau" cyn ymadael, yr unawd yn cael ei chymeryd gan Mr. Tom Wm. Jones, Nantyronen.

YR EISTEDDFOD.—Efallai y bydd o ddyddordeb i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD i wybod fod awdl Sarnicol ar "Wlad y Bryniau" yn un o'r *chwech* oreu am Gadair Llundain allan o 20. Wedi sylwi ar rai meflau, ym mysg eraill, gwneud rhai llinellau yn rhy fyrion, dywed un o'r ddau feirniad, y Proff. Morris Jones, M.A. am yr awdl :—

Tyssul.— . . . 'Ond y mae'r awdl hon yn ddarllenadwy iawn, rhediad y meddwl yn glir, a'r gynghanedd yn ystwyth. Fel y dywed yr awdwr yn ei ragair 'y syniad cyffredinol drwy'r awdl yw'r drychfeddwl o genedl wan yn ffoi i'r bryniau, yno i aros ac ymgryfhau, i ail ddychwelyd i ymladd

i'r byd, os nad ag arf o sylwedd, yna â chledd ysbrydol." Y mae ynddi lawer tarawiad pert, megys y desgrifiad o ffumerau Gwent :—

'Simneiau llwyd gwyd ar goedd
Eu ffroenau o'r dyffrynoedd."

Dyma engraifft o lyfnder ei gynghanedd :—

'I'r gwr o hen Gymru gain
Gwagder yw llawnder Llundain ;
Fe red i'w anwyl fro-dir
Yn ol wedi profi 'n hir
Rialtwch a llwch a llaid—y ddinas
Orddenol felltigaid ;
Eryri wen, oriau 'r ha'
A ddihuna 'i brudd enaid.

Caiff glywed cerdd yr ehedydd ;—
odlau
Cariad-lanc y mynydd ;
A'i gân serch yn disgyn sydd
I'r bryniau o'r wybrenydd.

Yn y man, nant y mynydd
Risial iddo 'n sisial sydd ;
Y glasfrwyn ar y twyni
A edwyn swn ei dawns hi.'

Yr ydym yn awr wedi dyfod i blith awdlau rhagorol,' &c.

Wele rai o sylwadau y cyd-feirniad—y Parch. J. J. Williams :—

Tyssul.—'Dyma'r cyntaf i wneud cynyg teg i ganu ar y testun. Mae cysgod y bryniau ar yr awdl hon, a diolchwn am hyny. Cystal a dim yn y gerdd yw y cyfeiriad at ddylanwad y Bryniau ar yr enaid :—

'Nid dan lasaf ffurfafen
Ddihafal yr Eidal hen,' &c.

Pe bai'r awdl hon i gyd cystal a darnau o honi byddai yn uchel iawn yn y gystadleuaeth,' &c.

Hydref 27, 1553, y cafodd Miguel Serfeto ei losgi yn fyw yn Geneva am nad oedd ei gred yn iawn yn ol John Calfin. Credai John mewn goddefiad (*toleration*) pan yn cael ei erlid ei hunan ; ond mewn llythyr at Farel, dengys yn amlwg nad oedd yn ei fwriad i ymddwyn at Serfed yn ol y rheol euraidd. Dyma ei eiriau, "Os byth y daw i'r dref, ni chaiff fyned allan yn fyw, os tycia fy awdurdod i." Ceisir ei wyngalchu heddyw, a dywedir mai'r "oes ac nid Calfin gyneuodd y ffagodau." Gellir dweyd yr un peth gyda llawn cymaint o wirionedd am yr Iuddewon a osodasant Iesu Grist i farwolaeth.

Yr Efengyl yn ol Matthew, Marc, Luc, a Ioan. Sylwer yn fanwl "yn ol." Nid wyf wedi deall erioed sut mae dynion wedi tybied fod hyny yn gyfystyr a dywedyd—Yr Efengyl *gan.* Yr wyf ragor nag unwaith wedi clywed y pregethwr yn codi ei destun o'r efengyl fel yr ysgrifenwyd hi gan Matthew, Marc, &c., fel y digwyddai. Wrth hyny yr ydys yn gwneuthur cam a'r hanes fel y mae yn y Beibl. Erbyn heddyw fe wyddis nad ysgrifenwyd yr un o'r efengylau hyd ar ol rai blynyddau wedi marw y rhai y mae eu henwau wrthynt. Tebyg yw fod "yn ol" yn golygu yn ol y modd y byddai yn cael ei hadrodd yn yr eglwys neu'r gyfeillach lle'r arferai Matthew, Marc, &c., unwaith ei phregethu. Nid yw "yn ol" Ioan yn golygu dim amgen na phe byddai Marc yn cael ei galw yn ol Petr.

Merched Rebecca.—Nid plaid grefyddol oedd y rhai hyn ; ond tynwyd sylw mawr ganddynt un amser, ac o bosibl i beth lles ddeilliaw oddiwrth yr hyn a wnaethant. Symudasant faich trwm oddiar ysgwyddau ffermwyr bychain ein gwlad ; ond ychydig wyr darllenwyr ieuanc Yr Ymofynydd am danynt. Oes rhywun rydd oleu ar eu hanes? —Joe Haenan.

Cwaceriaeeh.—Plaid gafodd ei rhan o erledigaeth yw y Crynwyr. Safasant dros egwyddor, dros ryddymofyniad a thros symlrwydd mewn crefydd. Oni allem gael tipyn o'u hanes a'u gwaith? Credwn fod yna foneddwr yn Aberystwyth sydd wedi talu cryn sylw i'r pwnc.—*Edmygydd.*

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE. LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq. W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

THE GREAT SALE

. . AT . .

BEN EVANS & CO.,

SWANSEA.

DAILY DURING JULY.

Send for a Catalogue of the Wonderful Bargains in Drapery, Fashions & Furnishing Goods. ∴ ∴

Customers residing at a distance can obtain all the benefits of the Sale by means of the Post Order Department. Every Care is taken in the execution of orders entrusted to us by post to give the same satisfaction as if the Goods were personally selected.

Bringing the Bargains from Ben Evans'.

Ben Evans & Co., Ltd. Swansea.